

ECO'R WYDDFA

RHIF 142

RHAGFYR 1988

20c

HYSBYSEBION

"Rhifynnau'r Hysbysebion" yw'r rhifyn hwn a'r nesaf. Ynddynt mae gwŷr busnes y fro yn dymuno cyfarchion y gwyliau i ni, ddarllenwyr yr Eco, a'u cwsmeriaid gydol y flwyddyn. Ein diolch ninnau iddynt hwythau am gefnogi'r Eco.



CYFARCHION Y TYMOR

Bydd un rhifyn arall cyn y Nadolig. Daw allan o'r Wasg, Nos Iau Rhagfyr 15. Felly, ohebwyd pentrefi, deunydd i law ar nos Fawrth Rhagfyr 6, os gwelwch yn dda.

GWOBROWYO... GWAITH DAU BENTREF



Cynrychiolwyr Dinorwig yn derbyn eu gwobr.



... a dyma griw hwyliog Waunfawr.

Llwyddodd dau gynllun gwirfoddol cymunedol o fro'r Eco i ennill y prif wobrau mewn cystadleuaeth Antur Bro '88 - cystadleuaeth wedi ei threfnu gan Gyngor Gwlad Gwynedd a'i noddi gan Gwmni Shell U.K. Cyfyngedig.


Mewn cyfarfod gwobrwyo ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog ar Hydref 20 bu i gynrychiolwyr o Antur Waunfawr ac o bentref Dinorwig dderbyn gwobrau oedd yn cynnwys gwobr ariannol o £100 a thystysgrif hardd. Bellach mae cynllun Antur Waunfawr yn

gyfarwydd drwy Gymru gyfan - sef arbrawf unigryw sydd wedi llwyddo i intigreiddio 40 o bobl dan anfantais meddyliol i fywyd y pentref.

Gwobrwywyd trigolion pentref Dinorwig am y modd y maent wedi ceisio adfer bywyd cymdeithasol a diwylliannol y pentref yn

...EIN BEIRDD A'N LLENORION IFANC

Cynhaliwyd nifer o Eisteddfodau ar hyd a lled y fro yn ddiweddar. Dyma luniau enillwyr y prif wobrau llenyddol. Am hanesion a chanlyniadau eraill yr eisteddfodau trowch dudalennau'r Eco.



Seremoni gwobrwyo yn Eisteddfod Bethel. Arwel W Jones yw'r prif lenor a Meinir Williams sy'n ennill y Tlws dan 18 oed am yr ail flwyddyn yn olynol.



Eurgain Haf Evans o Benisarwaun - enillydd Cadair Eisteddfod Ysgol Brynrefail.



Gwenno Hughes, Caeathro - prif lenor ysgol Syr Hugh Owen, a hithau hefyd am yr ail flwyddyn yn olynol.

ddiweddar. Am y tro cyntaf erioed ers chwarter canrif ail sefydlwyd Eisteddfod bentref yno ac yn ystod yr haf trefnwyd 'Hwyl Haf', gweithgaredd cyntaf o'i fath i'w gynnal yn y pentref. Yn ôl Mr Glyn Tomos a luniodd y cais ar ran y pentrefwyr mae derbyn y wobwr yma yn dangos bod modd llwyddo trwy ddigon o waith caled ond digon o hwyl. Yn y llun uchaf y mae R

Gwynedd Roberts, Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd, Eileen Fennell o Shell, Hannah Roberts a Rita Wood, y ddwy o Ddinorwig a Sian Davies o Gyngor Gwlad Gwynedd.

Y tri gwahanol, yn yr ail lun yw Robert Jones, trysorydd Antur Waunfawr, Pat Parry yr ysgrifennydd a Hywel Evans, gweinyddwr y cynllun, sy'n dangos y dystysgrif.

ECO'R WYDDFA

RHIF 142
RHAGFYR 1988

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC: Mrs Nan Humphreys,
Pant Bryngwyn, Tanycoed, (C'fon
5668).

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: Jonn
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Haffle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolien (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir
(Llanberis 871043).

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry,
"Ael y Bryn."

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAGFYR 15fed
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
RHAGFYR 6ed
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

I BLE'R AETH Y FACHWEN?

Yr annwyl Fachwen -
Os yw yn yr Eco
Mae'n ddistaw dros ben.

Daeth Eco'r Wyddfa drwy'r
Post yn brydlon fel arfer a
chefais innau seibiant o waith ty
i bori yn ei dudalenau. Dinorwig
a Deiniolien fydd yn cael fy sylw
gntaf, gan fy mod yn wreiddiol
o'r gornel gysegredig honno o
Fro'r Eco. Ond Ow! ynghanol
newyddion DINORWIG disgynn-
odd fy llygaid ar hanes marw'r
gohebydd enwog yn ei gartref
'Garth Cottage' Fachwen - a
dyma ffrwydriad (gyda phob
dyledus barch i D J Thomas,
Dinorwig - nabod o'n dda). Pam,
yn enw popeth na fyddai'r
hanesyn trist hwn wedi ei groni-
clo o dan Y FACHWEN, lle y
dewisodd y gwr hynaws wneud ei
gartref? Ydi'r Fachwen yna o
hyd?

Rydym ni'r Cymry yn fawr ac
uchel ein cloch am y mewnlifiad
i'n hardaloedd, ond dyma
enghraifft gweledol o'r llecyn
harddaf ym Mro'r Eco yn cael ei
ddiarddel - "i ba beth mae'r byd
yn dod", hwnna 'sgin i. Roedd
gweld Padarn View wedi ei
gyfenwi yn Garth Cottage ynlls
i'm calon, ond ei wthio i ganol
Dinorwig - anfaddeuol, o gofio
mai Y Fachwen oedd yr enw ar
yr ardal gyfan o ben yr Elidir i
Ben Llyn yn yr amser cynnar.

Carwn hefyd ategu bob gair o
eiddo Wil Jôs (Wilfred, Bryn
Bela) yn ei lythyr ynglyn â'r dat-
blygiadau sydd ar dro yn y cylch.
Gresynbod yn rhaid i un o Poole,
Dorset gynhyrfu'r dyfroedd a
dod a ni wyneb yn wyneb â'r hyn
sy'n digwydd o dan ein trwynau.

Mae'r hen air yn ddigon gwir,
"Gorau Cymro, Cymro
Oddicartre'."

Enid Jones
Bryn Celli
Talysarn, Gwynedd

DIOLCH

Annwyl Ardalwyr,

Tra yn aros gyda mam teimlaf
fy mod wedi dod i wir adnabod
chwiriorydd yr ardal sydd
yn 'Home Help'.

Dyma garfan amhrisiadwy yn y
gymdeithas, ac yn haeddu clod
yn gymaint ag unrhyw feddyg
neu nyrs.

Mewn galwedigaeth anodd a
blinedig mae pob un fel ei gilydd
yn gymeradwy iawn ac yn barod
bob amser i wneud cymwynas.

Diolch iddynt, nid 'Home
Help' fel y cyfryw, ond 'cyfeillion
caredig yr Henoed'; heb
anghofio y rhai sydd wedi ymd-
deol, ac hefyd parchus goffad-
wriaeth am May a Meira sydd
bellach wedi ein gadael.

Yn gywir iawn
Dilys Thomas (Post)
10 Tai Caradog,
Deiniolien

ANGEN GWYBODAETH A LLUNIAU AM T. ROWLAND HUGHES

Annwyl Syr,

Caniatewch i mi, trwy gymorth
colofnau eich papur bro, ape-
lio'n garedig at eich darllenwyr
am gymorth.

Yr wyf wedi derbyn comisiwn
gan Gymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru i lunio cyfrol ar
T Rowland Hughes yn y gyfres
Bro a Bywyd. Y mae'r rhan
fwyaf o luniau personol Rowland
Hughes ei hun yn Oriel Llanberis
a dyma fydd prif ffynhonell y
deunyddiau ar gyfer y gyfrol.
Ond tybed a oes gan unrhyw un o
ddarllenwyr Eco'r Wyddfa luni-
au neu lythrau perthnasol i'r
diweddar nofelydd y byddent yn
fodlon eu benthyca i mi ar gyfer
y gyfrol?

Hefyd, y mae amryw o gymeri-
adau eraill a oedd yn gysylltiedig
â T Rowland Hughes pan oedd
yn blentyn yn Llanberis, y byd-
dwn yn ddiolchgar o gael lluniau
ohonynt. Os gwyr unrhyw un am
luniau rhai o'r canlynol, byddwn
yn hynod o ddiolchgar pe byd-
dent yn cysylltu â mi:

1. R.E. Jones, 'Cyngar', gwr
llengar a gadwai siop ddillad yn
Llanberis. Bu farw yn 1936.

2. Y Parch A J George, a fu'n
weinidog ar Seion, Capel
Bedyddwyr Llanberis ddechrau'r
ganrif.

3. Joe Ellis, dyn y 'Darluniau
Byw' yn Neuadd y Pentref, eto ar
ddechrau'r ganrif.

4. Aled Hughes, Tyddyn Siarles,
W Jones Henry ac Emllyn Jones,
cyfoedion T Rowland Hughes
pan oedd yn ifanc yn Llanberis.

Gwerthfawrogwn yn fawr iawn
pe byddai unrhyw un o'ch darl-
lenwyr sydd â lluniau o'r uchod
yn cysylltu â mi ar Caernarfon
4665. Cymerir gofal arbennig o
unrhyw luniau a fenthycir i mi ac
yn naturiol cydnabyddir hynny
yn y gyfrol.

Yr eiddoch yn ddiolchgar iawn,
W Gwyn Lewis
Stryd y Degwm
Caernarfon

ARDDANGOSFA HEN LUNIAU Syr,

Rhyw deufis yn ôl cefais y fraint
o drefnu Arddangosfa Hen
Luniau Bro Eco'r Wyddfa yn
Amgueddfa'r Gogledd yn
Llanberis. Hoffwn petaech yn
caniatâu gofod i mi yn eich papur
i ddiolch i nifer o gyfeillion a fu yn
gymorth i mi.

Hoffwn ddiolch i'r Cyngor
Gwlad am brocio'r syniad yn y lle
cyntaf. Mae fy niolch yn ddiffuant
iawn i Swyddogion Amgueddfa'r
Gogledd am roddi 'cartref' i'r ard-
dangosfa, gwerthfawrogais yn
arbennig gwarteisi a pharodwydd
cymorth Mr Glyn Williams,
Warden yr Amgueddfa, a'i gyd-
weithwyr; diolch hefyd i Mr
Maurice Jones, ysgrifennydd
Cymdeithas Hanes Bro Eco'r
Wyddfa am fod "wrth law o hyd" i
wrando'm cri ac i aelodau'r
gymdeithas fu'n swnian am luni-
au yn eu hardaloedd; i Mr
Gwyndaf Hughes a Mr Iwan
Roberts am dynnu lluniau rhai o'r
hen luniau; i gyfeillion am osod y
lluniau ar gefndiroedd; i
Swyddogion Capel Nant Padarn,
Llanberis am gael benthyg y festri
i ddethol a dewis, i Wasg
Gwynedd am ddeunyddiau a
phosteri; i'r criw bychan a
dddaeth i'r Amgueddfa un bore
Sul i osod y lluniau i fyny.

Ond yn bennaf dymunaf ddiolch
i bawb a roddodd hen luniau i'w
harddangos. Mae'r hen luniau yn
fy meddiant o hyd. Peidied neb â
phoeni, fe'i dychwelir unwaith y
bydd aelodau'r Gymdeithas
Hanes wedi deswis lluniau ar
gyfer cael eu cynnwys mewn llyfr.
Gobeithir cyhoeddi llyfr yn y
flwyddyn newydd yn cynnwys
nifer fawr o'r hen luniau.

O gofio bod diddordeb mawr
iawn wedi ei ddangos yn yr ard-
dangosfa (daeth dros fil o drigo-
llion y fro yno) - rhagwelaf y bydd
gofyn mawr am y llyfr.

Yn gywir iawn,
Arwel Jones
Pant Hywel,
Penisarwaun

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

LLYTHYR AGORED AT GADEIRYDDION AWDURDODAU LLEOL CYMRU

Annwyl Syr/Fadam,

Fel y gwddoch, mae'r sefyllfa economaidd bresennol yng ngwledydd Prydain a'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng gwerth eiddo yng Nghymru a gwerth eiddo yn Ne-Ddwyrain Lloegr yn golygu fod pobl Cymru yn wynebu anhawsterau difrifol wrth geisio byw a gweithio yn eu cymunedau. Erbyn hyn, mae cymunedau cyfan yn cael eu cyfrif fel dim byd mwy na chyfle i arwerthwyr tai a busnesi i wneud elw sylweddol wrth greu marchnad ar gyfer trigolion De-Ddwyrain Lloegr a'u 'harian parod'. Ni all pobl Cymru fyth gystadlu yn y fath yma o 'farchnad agored' a cheisio am dai, swyddfeydd post, ffermydd, modur-dai, siopau, tafarndai, busnesi ac ati wrth i brisiau yng Nghymru godi £34 y dydd!

Os ydym am gynnig ateb cadarnhaol a realistig i'r dirywiad yma yn ein cymunedau RHAIID i Awdurdodau Lleol Cymru, fel cynrychiolwyr etholedig eu cymunedau, chwarae rhan mwy blaenllaw gan fabwysiadu rhaglen gynhwysfawr o brynu tai a busnesi yn yr ardal er mwyn eu gosod

ar rent i bobl leol. Dim ond drwy reolaeth gymunedol o'r fath y gallwn ddiogelu ein cymunedau a'r iaith Gymraeg.

Ysgrifennwn atoch i ofyn i chi a oes gennych gynlluniau ar droed i brynu tai a busnesi i'w rhentu i bobl leol, ac a ydych yn credu y dylech fynnu'r hawl gan y Llywodraeth i'ch galluogi chi i wneud hyn? Byddem yn gwerthfawrogi ateb clir a diamwys i'r cwestiwn hwn, a byddem yn falch o'r cyfle i drafod y mater ymhellach â dirprwyaeth o'ch cyngor os dymunwch. Gwyddom am eich parodrwydd i weithredu ar ran eich cymuned, ac edrychwn ymlaen at glywed gennych cyn Rhagfyr 23, 1988 os yn bosib.

Yr eiddoch yn gwir

Dros Gymru

Dyfed Wyn Edwards,

Cadeirydd Gweithgor

Nid yw Cymru Ar Werth
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Angharad Wyn Tomos

Ysgrifennydd y Gweithgor

Bron Wylfa,

Llanwnda,

Caernarfon,

Gwynedd

CYNLLUN IECHYD DA

Dyma gyfle i chi gyfrannu i ddatblygiad bywydau plant eich ardal. Cynllun o addysg iechyd syml iawn yw hwn sy'n lledaenu gwybodaeth fuddiol mewn ffordd ddiddorol. Mae na lyfrau gwaith ar gael ar gyfer plant Ysgolion Sul, Ysgolion dyddiol, Clybiau gyda'r hwyr, Yr Urdd.

COLLI AC ENNILL GOHEBYDD

Gyda thristwch ffarweliwn â **Glenys Jones, Rhandir Mwyn** fel gohebydd yr Eco ym mhentref **Waunfawr**. Rhoddodd **Glenys** wyth mlynedd o waith i'r Eco ac yn aml, troediodd yr ail filltir.

Wrth ddiolch iddi hi croesawn **Mrs Nan Roberts** atom. **Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonynt. Gol.**

Mae mis Ionawr yn amser da i chi roi cychwyn ar y gwaith. Beth am ddechrau grwp bach nawr?

Am wybodaeth anfoner at:
Cynllun Iechyd Da
112 Heol Albany,
Caerdydd (0222) 493895

RHOIDDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion i gronfa'r Eco.

£5: Robert Gwilym Jones, (Gallt y Foel gynt), Bangor.

£5: Mr a Mrs Ifor Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug.

£3: Katie, Eirlys a Now, Porth y Gogledd (gynt), Deiniolen.

£2: Griffith Jones, Pentre Helen (Blaen y Waen gynt), Deiniolen.

£2: Rhodd ddi-enw, Waunfawr.

£1: Mr a Mrs Michael Jones, 34 Pentre Helen, Deiniolen.

£1: Mrs M J Roberts, 5 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

Llyfrau Nadolig 1988

Talwrn y Beirdd 4 — Gol: Gerallt Lloyd Owen £4.00

Cal Jones — Storfaeu Ysgrifenedig: J. Selwyn Lloyd
Darluniau: Gerallt Lloyd Owen

Gwledd o bêl-droed! Lluniau-stribed a storfaeu pêl-droed, cartwnau a phosau. £4.50

Bwthyn Lisi Meri (Cyfres Baeheli 2) — Gwenno Hywyn
Dilyniant i Y TY AR Y CLOGWYN (Cyfres Baeheli 1) £2.50
Stinlog — Ernest Jones

Pob agwedd ar Hanes Stiniog mewn penodau byrion, difyr.
48 o luniau. £4.50

Cadw Cyfrifon a'u Dehongli — G.B. Owen £3.50

Awen R.E. — R.E. Jones (Llanrwst)

Casgliad cyflawn o englynion un o bencampwyr y mesur.
£3.50

Carl Wyn — Jacqueline Wilson (cyfieithiad: Gwenno Hywyn) Cyfres yr Ardegau. £3.00

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Cyfarfod Tachwedd 30ain, 7.15

Oriel Eryri, Llanberis

Darlith ar Gerallt Gymro gan Bob Harris,

Coleg Prifysgol Bangor.

Cyfarfod Rhagfyr 21ain, 7.15

Oriel Eryri, Llanberis

"Daearyddiaeth a Daeareg Eryri" gan

Geraint George, Plas Tanybwllch.

Cyfarfod Ionawr 18fed, 7.15

Oriel Eryri, Llanberis

"Hen Fandiau'r Chwarelwyr" gan

Geraint Jones, Trefor.

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER · UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

RHYWBETH I BAWB!

CÔR COLEG SANT IOAN
CAERGRAWNT
Arweinydd: Dr. George Guest



AR LOG

EU 5ed CASGLIAD!

GERAINT
DODD
TENOR

ROBIN
HUW
BOWEN
- Y DELYN
DEIRES



RICHARD
DAVIES
TREBL



ELINOR
BENNETT
"DARLUN O'R
DELYN"
CASET A.C.D.

CÔR FFILHARMONIG
ABERGWAUN

LLEISIAU'R
GWEUNYDD

BRYN
TERFEL

16 O GANEUON



PERERIN
"YNG NGOLAU DYDD"

CARYS
EDWARDS

"PUM DIWRNOD
O RYDDID"
CWMNI THEATR
IEUENCTID MALDWYN



"MWY NAG AUR"
YSGOLION SUL
ARFON

YN EICH SIOP LEOL, NEU'N SYTH O
SAIN · LLANDWROG · CAERNARFON · GWYNEDD
(0286) 831 111



CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)



PRIODAS DDIEMWNT: Roedd dydd Mercher, 3ydd o dachwedd yn ddiwrnod arbennig iawn i Mr a Mrs John Phillips (Jonnie Phil a Lizzie) y Groeslon, gan eu bod yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt.

Mae Mr Phillips yn enedigol o'r Cwm - yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Phillips, Pantafon. Wedi gadael yr ysgol yn ôdeuddeg oed aeth yn wâs ffarm i Lwyncoed hyd 1949, yna i Chwarel Dinorwig hyd 1959, ac yna ar lein yr Wyddfa. Yn ei swydd olaf y cofiwn orau am 'Jonnie' yn ei gap a'i gôt wen, sef 'Lollipop Man' Ysgol Cwm. Ymgwymerodd â'r gwaith yma am ddeng mlynedd.

O West Bromwich daeth Mrs Phillips yn eneth bedair ar dddeg oed i weini i westy Padarn Villa, Llanberis.

Priodwyd y ddau yng Nghaernarfon ar Dachwedd 3ydd, 1928, ac ymgartrefu yn Sarn, Clegir, wedyn symud i Uwchlaw'r Ffynnon, Bwlch ac yna symud i lawr i Groeslon, ac wedi ymgartrefu yma ers 56 o flynyddoedd.

Mae ganddynt un mab, Edwin, ac un ferch, Nancy, un wyr, tair wyres ac un gor-wyres.

DIOLCH: Dymuna Mr a Mrs Phillips ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas

Ddiemwnt.

CYFARCHION I JOHN AC ELIZABETH PHILLIPS AR DDATHLU 60 MLYNEDD O FYWYD PRIODASOL

Aeth trigain mlynedd heibio
Er pan yr unwyd dau
O gymeriadau hoffus
Sy'n trigo yn ein bau.

'Roedd bywyd yn galetach
Pryd hynny 'nôl y sôn,
A thlawd oedd llawer aelwyd
O Fynwy draw i Fôn.

Ond mentro wnaeth y ddeuddyn
Yn eofn ar eu taith,
Sut gwyddent hwy bryd hynny
Y byddai'r siwrnai'n faith?

Fe gawsont ambell storom
A roddai ergyd gas,
Ond deuai heulwen eilwaith
A'i rin yn bêr ei flas.

Caed amryw droeon trwstan,
(Am rhain gwell peidio sôn!)
Rhyw bethau bach di-fater
Oedd rheini yn y bôn.

A heddiw mae'r holl ardal
Yn cyfarch gwell yn ffri,
'Rhen Jonnie Phil a Lizzie,
Ymlaen yn wir a chi.

Robert Henry Parry

CLWB POBOL Y CWM: Pleser oedd cael croesawu Mrs Margaret Jones o Gricieth am yr eildro i gyfarfod dydd Iau, Hydref 20, dan lywyddiaeth Mr Llew Hughes. Testun ei sgwrs oedd 'Troeon difri, difyr a thrwstan'. Roedd ei hatgofion o gyfnod difri pan yn byw yng nghyffiniau Talsarnau pan ddigwyddai gorlifiadau a olchai tros y tir a chreu galanast enfawr i'r ardaloedd cyfagos, ac yn y diwedd gorfu iddynt fel teulu ymadael i dir uwch y Blaenau. Daeth cyfnod difyr pan oedd yn berchen y Llythyrdy yng Nghroesor ac yn naturiol, dod i gysylltiad agos â'r gwr unigryw Bob Owen, gyda'r stôr o lyfrau yn 4.

llenwi pob ystafell yn ei dy. Arferai Mrs Jones ddarparu lluniaeth i ddringwyr a fyddai yn galw yn fynych wrth fynd heibio'r ardal, ac ar un diwrnod gwlyb ac oer galwodd amryw am loches ac i sychu eu dillad. Gofynnodd un gwr iddi beth oedd ei hagwedd tuag at ddringwyr, atebodd nad oedd ganddi ddim cydymdeimlad â hwynt wrth ryfegu eu bywyd ar y mynyddoedd. "Myfi yw Syr John Hunt" meddai gan estyn ei law. Tro pur drwstan onide?

Mrs K Watkins a Mrs G Chick oedd yn gofalu am y baned a Miss Megan Davies am y raffl. Yn absenoldeb ein gwr gwadd oherwydd gwaeledd dydd Iau,

Tachwedd 3 bu Mr Richard Roberts yn garedig yn llenwi bwlch gyda chasgliad amrywiol o recordiau y gantores Margaret Williams, ynghyd â Mil o Leisiau yn Neuadd Albert, Llundain. Diolchodd y Llywydd iddo am ei gymwynas. Longyfarchwyd Mr Bob Parry am ennill gwobr y Delyneg yn Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi.

Rhoddyd y te a'r raffl gan Mr a Mrs R H Parry, a enillwyd gan Mrs G Chick.

CYDYMDEIMLAD: Hoffem gydymdeimlo â theulu y diweddar Robert Price Jones, a fu farw yng nghartref ei fab yng Nghaernarfon. Brodor o'r Cwm oedd Bob, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs David Simon Jones, Glanbogelyn gynt. Cefais sgwrs ag ef ychydig wythnosau yn ôl gyda'i gyfarchiad arferol "Sut mae pawb yn y Cwm?" Roedd ganddo edmygedd enfawr o hen gymeriadau yr ardal, ac wedi sgo yn helaeth fel eraill o'i gyfoedion o'u doethineb a'u harweiniad. Hawdd oedd deall ei fod wedi cyfrannu yn helaeth i achosion da y dref.

CINIO NADOLIG YR OEDOLION: Cynhelir y cinio Nadolig yn y Ganolfan nos Fercher, Rhagfyr 7fed am 6 o'r gloch. Pawb i ddod a chyllell, fforc a llwy gyda hwynt ar gyfer pryd. Croeso cynnes i oedolion y pentref.

LLONGYFARCHIADAU i Kevin, Glanbogelyn ar gyrraedd ei benblwydd yn ddeunaw oed; hefyd Mr a Mrs Wilbert Hughes, 11 Dolafon am fod yn nain a thaid am y tro cyntaf, ganwyd bachgen bach i Alwyn a Jen, Llanberis. ac eto i Mr a Mrs J C Jones, 21 Dolafon am fod yn hen ewythr a hen fodryb am y tro cyntaf.

YMADAEL O'R ARDAL: Dyna oedd hanes Ifor a Glenda Roberts, Awelon yn ddiweddar. Maent wedi symud i fyw i Lithfaen. Pob dymuniad da a hapusrwydd iddynt ac i Elen a Gwenan yn eu cartref newydd.



PRIODAS: Dydd Sadwrn, Hydref 15fed yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, priodwyd Andrew H Gordon, mab Mr a Mrs B P Gordon, Hambleton, Sir Gaerhirfryn â Delyth G Williams, merch Mr a Mrs H W Williams, Nant Forgan. Gwasanaethwyd gan y Rheithor, y Parchedig A Hawkins. Y gwas oedd John Gordon, y tywysyddion oedd Leslie Williams a Matthew Gordon. Y morynion oedd Katie a Sophie Swan a Sian Williams. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Bulkeley, Biwmaris. Bydd y pâr priod yn ymgartrefu yn Culcheth, Sir Gaer. Pob dymuniad da iddynt.

DIOLCH: Dymuna Delyth ac Andrew Gordon ddiolch yn fawr iawn i'w rhieni, teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Ifor, Glenda, Elen a Gwenan ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd yn eu cartref newydd, 'Tafarn y Fic' Lithfaen. Maent hefyd yn dymuno Nadolig Llawn i bawb.

YN EISIAU:
Athrawes i'r Ysgol Felthrin
i ddechrau mis Ionawr
Cysyllter â Mrs Sioned
Jones
Ffôn: Llanberis 872085

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

BEDYDD: Bnawn Sul, Hydref 23ain yn dilyn yr oedfa yng Nghapel MC Brynrefail, bedyddiwyd Bethan Mai, merch fach Mr a Mrs Bleddyn Owen, 1 Rhes Fictoria, Deiniolen, chwaer Rhian a Ruth ac wyres i Mr a Mrs Glyn Owen, Tros yr Afon. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, Y Parch John Morris a'r fam fedydd oedd Mrs Morgan, Brynteg, Ynys Môn.


DIOLCH: Dymuna Mrs Blodwen Evans, Cae Gwyddel ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei hanhwylder diweddar, yn dilyn ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Daliwch i wella Mrs Evans.

NOSON GUTO FFOWC: Trenfwyd noson lwyddiannus eto eleni ar Dachwedd 5ed yn y Cae Chwarae gan Bwyllgor

Gweithgareddau'r Pentref. Roedd y goelcerth a'r tân gwyllt yng ngofal Islwyn Jones, Malcolm Jones a Geraint Roberts a chafwyd arddangosfa liwgar dros ben. Paratowyd lluniaeth blasus o gwn poeth, tatws trwy'u crwyn a 'coleslaw' gan y chwiorydd. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i'r noson.

CRONFA APÊL EISTEDDFOD YR URDD 1990: Fel y gwyddoch, mae dwy ymdrech wedi eu gwneud yn ystod 1988 tuag at yr Apêl uchod. Cafwyd Sêl Cist Car yn ystod mis Awst ac roedd elw'r Noson Tân Gwyllt yn mynd tuag at y Gronfa, sydd erbyn hyn tua £150. Mae nifer o fân nwyddau ar werth - ardderchog ar gyfer llenwi'r hosan Nadolig - beiros amry-

Parhad ar dudalen 6.



**CYFARCHION
NADOLIG O
GWM-Y-GLO
A
BRYNREFAIL**

Hoffem ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

**MODURDY
London Garage**

AWERTHWR MODURON A PHARTIAU

FIAT

CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870234

Arbenigwyr mewn tiwnio moduron
A.A. M.O.T.

**Mae JOAN a CHARLES WARE
SWYDDFA'R POST
a Stordy Cwm-y-Glo**



Ffôn: 870242

yn dymuno'n dda i chwi oll dros y Nadolig hwn - ac yn diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**BRYN A KATHLEEN
WILLIAMS**



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG Ffôn: 77482

GWEITHDY
TANRALLT, CWM-Y-GLO,
Ffôn: Llanberis 870793

Gwneuthurwyr ffenestri, drysau, grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed
Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara



AM BETROL, DIESEL,
OLEW AC AMRYFAL
ANGHENION MODURO



**GORSAF BETROL
LONDON GARAGE**

CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
ODDI WRTH
MORRIS BROS.
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM

MECWS PEN Y BRYN

LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268

70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

Dymuna Maldwyn a Margaret

**Gwesty'r
Fricsan**

(Snowdon Hotel)

CWM-Y-GLO

Llanberis 870289



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.
Croesewir cyfeillion hen a newydd dros yr Ŵyl.

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth



C & D. WAGER

Llythyrdy

BRYNREFAIL

Ffôn: LLANBERIS 870241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer Papurau
Newydd Bwydydd Ffrwythau Llyfrau Cymraeg
Llysiâu Melysion Tybaco

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinerwig 670726)

EISTEDDFOD YR URDD DYFRYD NANTLE AC ARFON 1990: Mae'n fwrriad gan Bwyllgor Cyllid yr Eisteddfod uchod geisio llogi trê'n o Fangor i Lundain ar 15fed o Ebrill 1989. Os oes genych ddi-ddordeb, cysylltwch yn ddiymdroi, â Glenys Griffiths, Llwyn Eithin, am fanylion pellach. **YR URDD:** Nos Sadwrn, Tachwedd 5ed cynhaliwyd noson tân gwyllt ar y tir ger y Neuadd. Daeth criw da ynghyd ac ar noson braf roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw. Bydd peth o elw'r noson yn cael ei gyfrannu tuag at Gronfa'r Neuadd.

PLAID CYMRU: Nos Fercher, Tachwedd 23, cynhelir noson o chwarae Bingo yn y Neuadd. Croeso cynnes i bawb ddod draw i noson hwyliog.

Y GYMDEITHAS: Nos Fawrth, Tachwedd 8fed cafwyd noson ddi-fyr yng nghwmni Jane Edwards, Llanfairpwllgwyngyll. Cafwyd enghreifftiau o waith ysgrifenydd eraill a hefyd darllenodd ddwy stori fer o'i gwaith ei hun, a fydd mewn cyfrol o'i gwaith sydd i'w gyhoeddi yn fuan. Diolchwyd i Jane Edwards ar ran y Gymdeithas gan Ieuan Williams.

CAPEL Y CYSEGR: Dydd Sul, Tachwedd 13 penderfynwyd prynu system sain i'w gosod yn y Capel. Mae'r system, fydd gyda meic yn y pulpud ac un arall yn y set fawr a phedwar uchel seinydd ar y waliau, yn debyg o gostio hyd at £350. Gobeithir cael y system i weithio cyn y Nadolig. Agorwyd cronfa arbennig, fel y gall unrhyw un fyddai yn dymuno cyfrannu tuag at y gost, wneud hynny. **SUL Y COFIO:** Fore Sul, Tachwedd 13 am chwarter i unarddeg y bore, cynhaliwyd y gwasanaeth cofio arferol ger y gofeb. Eleni roedd y gwasanaeth yng nogfal y Parch W R Williams a'r Parch R W Roberts, gyda phlant Safon 4 a chynrychiolwyr gwahanol gymdeithasau yn gosod torchau ar y gofeb.

'Y NEUADD: Nos Fercher, Tachwedd 2il cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor newydd gyda chynrychiolaeth ardderchog o holl gymdeithasau'r pentref. Cafwyd amryw o syniadau gwreiddiol am weithgareddau i godi arian tuag at ail-adeiladu'r Neuadd. Fel yr adroddwyd o'r blaen fe drefnir i Sion Corn ddod i Fethel nos Lun, Rhagfyr 19. Hefyd trefnwyd Gyrfa Chwist Nadolig yn y Neuadd nos Wener, Tachwedd

25ain. Er nad oedd cais am gael agor 'caffi' wedi ei dderbyn, penderfynwyd y byddai caniatâd yn cael ei roi dan rai amodau ar nos Sadwrn a nos Fercher, pan fyddai'r Neuadd yn wag. **PÊL-DROED:** Ers rhai misoedd bellach mae nifer o hogiau dan 9 oed o'r pentref wedi bod yn ymarfer pêl-droed 5 bob ochr yn Neuadd Hamdden Arfon dan oruchwyliaeth Dafydd Jones, Llanddeiniolen. Nos Fercher, Tachwedd 16 chwaraewyd eu gêm gyntaf yn erbyn Clwb Bethesda. Roedd chwarae brwd hogiau Bethel yn argoeli'n dda am dîm pêl-droed ardderchog i'r dyfodol.

PARTION NADOLIG: Cynhelir Parti Nadolig plant hynaf Ysgolion Sul y Cysegr a Bethel ym Mhlas Menai, nos Lun, Rhagfyr 12fed. Bydd te parti y plant ieuengaf yn Ffestri Cysegr brynhawn dydd Mawrth, Rhagfyr 13eg. **GWASANAETHAU NADOLIG:** Fore Sul, Rhagfyr 18fed, cynhelir gwasanaeth Nadolig y Plant yng Nghapel Cysegr. Bydd gwasanaeth y nos ar yr un Sul am 6 o'r gloch dan ofal Merched y Wawr gyda phlant Ysgolion Sul Bethel, Saron a'r Cysegr ac aelodau cymdeithasau'r pentref. Bydd tocynnau ar gael am 50c gyda'r elw yn cael ei gyfrannu i Gronfa'r Neuadd.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, 16fed o Dachwedd cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn yr ysgol. Y wraig wadd oedd Mrs Pat Jones, Brynrefail. Dangosodd inni sut i wneud addurn bwrdd ar gyfer y Nadolig a chafodd pob un ohonom gyfle i wneud un. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs G Griffiths. Croesawodd y Llywydd, Mrs Meinir Roberts, Mrs Williams, Cremlyn yn ôl a dymuno'r gorau i Carwyn John Morris ar ôl ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Y Gwestwagedd oedd Gwyneth Jones, Fachell, Anne Elis a Lynwen Morris. Enillwyd y raffl

DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN



Roedd yn ddiwrnod torri traddodiad yn ysgol Bethel dydd Gwener, Tachwedd 18, y plant yn dod i'r ysgol heb eu gwisg swyddogol a'r athrawon yn gwisgo fel plant - a phawb yn talu dirwy am droseddau. Daeth hyn, ac ymdrechion eraill, a chyfanswm o £55 tuag at yr achos.

BRYNREFAIL (PARHAD)

wiol, miniwr pensiliau, dau fath o rwbwr, etc., yr oll gyda logo'r Eisteddfod arnynt. Mae'r prisiau yn amrywio o 20c i 60c. Cofiwch hefyd am y pâr o blatiau dathlu - dwy olygfa o'r Wyddfa - un ohonynt o Benllyn a'r llall o Ddyffryn Nantlle i'w cael am ugain punt, neu gellir eu prynu'n unigol am ddeg punt. Am yr oll o'r nwyddau, cysylltwch â gohebydd y golofn hon.

CINIAWA NADOLIG: Trefnir Cinio Nadolig Blynyddol y pentref eleni

nos Wener, Rhagfyr 16eg yng ngwesty Clynnog, Clynnogfawr. Pris y cinio twrci fydd £6.95 a bydd bws yn cychwyn o'r Bont am 7 o'r gloch. Cysylltwch ar unwaith â'r Trefnydd, Mrs Eirlys Williams, Marino (Ffôn: 870423).

Bydd aelodau Sefydliad y Merched yn dathlu'r Nadolig gyda chinio yng Ngwesty Ty Uchaf, Talybont, nos Lun, Rhagfyr 19eg. Bydd croeso i ffrindiau a chydabod yr aelodau ymuno yn y dathlu. Pris y cinio fydd £8.50. Rhoddwch wybodaeth rhag blaen i'r ysgrifenyddes, Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian.

DAU O FETHEL YN BRIF DDISGYBLION BRYNREFAIL



Y Prifathro, Mr Islwyn Jones a'r Dirprwy Brifathrawes, Mrs G A Williams, yn cyflwynu rhodd i ddau gyn-ddisgybl, Meinir Williams ac Alan Williams i ddathlu penodi'r ddau yn Brif Ddisgyblion Ysgol Brynrefail.

25ain.

gan Mrs Beti Owen. Bydd y cinio Nadolig eleni ym Mhlas Menai, nos Fercher, 14eg o Ragfyr. Pris y cinio yw £8. Bydd y bws yn cychwyn am 7.15. Enwau ac arian cyn gynted â phosib i Mrs Mary Evans.

Mrs Mair Price fydd yn cynrychioli'r gangen yn y noson Garolau yn y Cysegr. Diolchodd y Llywydd i bawb am gyfrannu tuag at lwyddiant yr Eisteddfod. **BEIBL DIDDOROL?** Nos Fawrth, Tachwedd 29 yn Ffestri'r Cysegr, cynhelir noson wahanol i ddathlu cyfieithu'r Beibl. Bydd cyfle i unrhyw un ddod â chopi o Feibl neu Destament gyda stori ddi-ddorol tu ôl iddo, Beibl teulu neu Feibl a gyhoeddwyd neu a roddwyd i ddathlu achlysur arbennig.

EISTEDDFOD: Dydd Sadwrn, Tachwedd 12fed cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Bethel a'r Cylch gyda chystadlu brwd o ddechrau cyfarfod y prynhawn i'r gystadleuaeth wythawd am hanner nos.

Prif Lenor yr Eisteddfod ac enillydd y Gadair oedd Arwel W Jones, Hafan, Y Rhos, gyda Meinir Williams yn ennill y Tiws dan 18 oed am yr ail flwyddyn yn olynol. **I Emma Lewis o Safon 3 y dyfarnwyd Tiws am y gwaith llenyddol gorau dan 12 oed.** Enillwyr eraill Tlysau yr Eisteddfod oedd:

Coginio dan 15 oed: Ruth Parry; **Gwaith Llaw dan 15:** Meinir D Williams; **Coginio Agored:** Nan Rowlands; **Gwaith Llaw Agored:** Gwyneth Williams; **Canu dan 12 oed:** Bethan Williams; **Adrodd dan 12:** Donna Marie Williams. Dyfarnwyd y Tiws am yr eitem gerddorol orau i Lynne Roberts am chwarae'r piano a'r Tiws adrodd i Sioned Owen. Mae dyled y pentref yn fawr i'r pwyllgor am drefnu'r Eisteddfod, i bawb fu'n hyfforddi'r cystadleuwyr ac i'r rhai fu'n cystadlu a hefyd i'r beirniaid a'r cyfeilyddion am eu cyfraniad i lwyddiant yr Eisteddfod.

WYNEBAU IFANC EISTEDDFOD BETHEL



Rhai o'r cystadleuwyr ifancaf.



Plant o adran babanod yr Ysgol a gafodd wobrau.



Plant adran gynradd a gafodd wobrau yn yr eisteddfod.



O'r chiwth i'r dde: Emma Lewis a enillodd y wobr am y stori orau yn yr eisteddfod. Bethan Williams a enillodd Gwpan Coffa Mrs Foulkes, Tyddyn Gwndwn ac yna Sioned Jones a gafodd y tlws am y llun gorau yn yr eisteddfod.



Donna Marie Williams, buddugol ar yr adroddiad dan 12.

NEWYDDION BETHEL

PRIODAS: Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Aneurin Jones, Glan Gors, a Ceri Jones, Caernarfon ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Maent bellach wedi cartrefu yn Stryd Margaret, Caernarfon.

Llongyfarchiadau i Jennifer a Michael, y Ddôl ar enedigaeth merch fach, Ceri.

AR WERTH
ORGAN YAMAHA
PORTATONE PS-6100
a LLAWLYFR
gwerth £1,000 - ond i'w
gwerthu'n llawer rhatach.
Mr Tees,
Glanffrw, Llanrug

PONT

Mudiad newydd yw PONT sydd wedi ei sefydlu'n ddiweddar iawn. Rhai wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith sy'n bennaf gyfrifol am y mudiad. Maent yn awyddus i ymddodi'n llawn i'r gymdeithas Gymraeg a Chymreig, ond yn aml yn ei chael yn anodd i wenud hynny.

YR IAITH GYMRAEG PONT 'TA RHWYSTR

Be' fydd tynged yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd? Fydd hi'n diflannu i lawr Twnel Conwy ar ôl iddo gael ei agor yn 1991?

"Mewnllifiad" ydy'r gair ffasiynol iawn ar hyn o bryd. Mae mwy a mwy o Saeson a phobl ddi-Gymraeg yn dianc o'r dinasoedd. Bellach mae llawer o Fudiadau dylanwadol - Cymdeithas yr Iaith, Plaid Cymru, a hyd yn oed, y Blaid Lafur - yn canolbwyntio ar y Mewnllifiad a'r effeithiau ar yr iaith, prisiau tai, gwasanaethau lleol, swyddi i bobl leol ac yn y blaen.

Fel aelodau 'PONT', rydan ni wedi bod yn trafod yr un pwnc ers ein cyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf. 'PONT' ydy mudiad cenedlaethol newydd sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hybu pobl i ddysgu Cyraeg, a mwy am Gymru. Y mwyafrif ohonom ni ydy mewnfudwyr sy'n trio dysgu Cymraeg. Rydw i'n falch fod dipyn o Gymry Cymraeg wedi ymuno hefyd. Mae'n bwysig cyfleu'r syniad fod PONT ar ochr Cymry ac nid ymgais i feddiannu'r diwylliant Cymreig gan Saeson.

Wrth gwrs, nid yw problem mewnlifiad yn unigryw i Gymru. Mae o'n digwydd ymhob rhan o Brydain wledig. Yng Nghymru wledig mae na' ddau wahaniaeth: (a) Mae arolwg diweddar yn rhagweld y bydd poblogaeth wledig Cymru'n tyfu'n gyflymach nag yng ngweddill gwledydd Prydain cyn diwedd y ganrif (yn ôl adroddiad gan Sefydliad Materion Cyfoes Cymru sydd wedi ei gyhoeddi y mis diwethaf); (b) mae mewnfudwyr yn bygwth yr iaith gynhenid.

Mae iaith yn medru creu wal rhwng dwy gymdeithas, sef Cymry Cymraeg a phobl di-Gymraeg. Medrai'r ymgyrch yn erbyn tai haf fod yn ddechrau tyn-dra o ddifri yng Nghymru.

Ond oes na angen meddwl bod yr iaith Gymraeg yn debyg i wal neu rwystr? Ydy hi'n bosib mai Pont rhwng y ddwy gymdeithas fydd yr iaith?

Mae na lawer o mewnfudwyr heb ddi-ddordeb yng Nghymru na'r Gymraeg. Yn erthygl ddiweddar yng nghylchgrawn wythnosol 'Golwg', dywedwyd:

"Dim ond 35% o newydd ddyfodiaid sydd erioed wedi trio dysgu Cymraeg

(Tudalen 5, 10 Tachwedd, 1988)

DIM OND 35% - rydw i'n meddwl mai anhygoel ydy hi bod cymaint o bobl yn barod i drio.

Bellach mae'r diddordeb yn y Gymraeg yn tyfu'n gyflym. Llynedd, yng Ngwynedd, gwnaeth dros fil o bobl gofrestru ar gyrsiau dysgu Cymraeg (cynnydd o 40% ar y flwyddyn cynt) ac mae'r galw eleni wedi bod yn fwy.

Ar ôl dweud hynny, un peth sy'n amlwg - doedd na ddim llawer o oedolion yn dysgu Cymraeg yn llwyddiannus. Faint o fewnfudwyr yn dechrau, parhau trwy'r gyfundrefn o ddysgu Cymraeg ac wedyn siarad yn ddigon da i fod yn dderbyniol i Gymry Cymraeg? Does neb yn gwybod, ond ychydig iawn mi faswn i'n dweud.

Dydy dysgu iaith newydd ddim byd academaidd. Mae rhaid i chi wneud pethau trwy gyfrwng y Gymraeg - gweithio, cymdeithasu, siopa, darllen llyfrau, defnyddio'r cyfryngau Cymraeg.

Fydd yr awydd i ddysgu Cymraeg yn gyfle i fewnfudwyr a phobl leol ddwad at ei gilydd a siawns i fewnfudwyr cyfrannu rhywbeth at y gymdeithas bresenol?

Yn y cyfarfod nesaf o 'PONT', mi fyddan ni'n trafod y pwnc yma a chwestiynau fel:

Pam mae'r rhan fwyaf o Saeson mor anwybodus o'r iaith Gymraeg - hyd yn oed pobl sy isio byw mewn ardaloedd 'Bro Gymraeg'.

Pam mae'r cyrsiau Cymraeg mor aflwyddiannus, a sut ydan ni'n mynd ati i ddatrys y broblem?

Pam, fel pobl sy'n siarad Cymraeg, dan ni ddim yn marchnata'r iaith yn fwy?

Sut ddylai mewnfudwyr ffitio i'r ffordd leol o fyw?


Ydy hi'n bosib fedran ni ddefnyddio'r Gymraeg i wneud Pont rhwng mewnfudwyr a phobl leol?

S'gynnoch chi syniadau? Cysylltwch â Jim Woodcock, Cadeirydd PONT (Cangen Gwynedd), Ty Gwyn, Waun, Penisarwaun. Rhif ffôn: Llanberis 870121, neu dewch i'r cyfarfod nesaf, nos Fawrth, 6ed o Ragfyr, 1988 am 7.30 yn Festri Capel Penuel, Love Lane, Bangor.

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

H.E. HUGHES

a'r MEIBION



870 870
902 444
ac 872200

MASNACHWYR GLO

I BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS



Y LLE DELFRYDOL
I BRYNU ANRHEG
NADOLIG I'CH
ANIFEILIAID ANWES



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Jill Stott

GARTH MAELOG

PET CENTRE

51 STRYD FAWR
LLANBERIS 870840



ROBERT GARTSIDE B.Sc., M.P.S.

FFERYLLYDD
COMPTON HOUSE
LLANBERIS



Ffôn: 870264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!
GWERTHWR SWYDDOGOL

Persawriau SORTILAGE, LENTHERIC,
YARDLEY, MAX FACTOR

Ffilmiau a chamerau KODAK a FUJI

*Gwasanaeth datblygu a phrintio ffotograffau
am brisiau cystadleuol*

NADOLIG LLAWEN I BAWB!



Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

Michal a Brigid
Morana a'r plant

Sea Fresh Chip Shop

Stryd Fawr
LLANBERIS
870425

Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth

Vera, Haydn a
John

SIOP CHIPS

SNOWDON VALLEY
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 870659




Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

D & E

Dinorwig House
LLANBERIS 870300

Dewch atom ar gyfer
anrhegion Nadolig i bawb
o'r teulu. Nwyddau ffansi,
Cardiau Nadolig, Papur
Lapio etc.




Dymuna
pawb yn siop
VALERIE
J. JONES


FFRWYTHAU
GLAN
Y DON

STRYD FAWR
LLANBERIS
870301

NADOLIG
LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD
DDA




CYFARCHION
Y TYMOR



i bawb
yn yr ardal
oddi wrth

TRÊN BACH LLYN LLANBERIS





NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus ar ôl 7.30 p.m. o'r nos cyn y Nadolig tan ddydd Mawrth 27 Rhagfyr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES



STRYD FAWR
LLANBERIS
870328



CYNLLUNWYR GWALLT
YN ARBENIGO MEWN TORRI

Beth am ddechrau'r flwyddyn newydd gyda
perm yn ein SÊL IONAWR

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA ODDI WRTH

CHICO A ROSE

龍騰樓

BWYTY TSINEAIDD Y
DRAGON

39 STRYD FAWR
LLANBERIS 872205

hefyd

翠谷

Chico

Meat & Wine

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

Stryd Fawr

Llanberis 870501

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i
chwi oll oddi wrth

Ifor a Margaret

Diolch am eich cefnogaeth
trwy gydol y flwyddyn

Maxelle's

(Perchnogion Mr a Mrs M. Thomas)

Stryd Fawr

Llanberis 871427

Dewis rhagorol o ddillad hamdden,
eitemau ategol a gemwaith.

Anrhegion Nadolig delfrydol,

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb



Diolch yn fawr am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Am anrhegion Nadolig a werthfawrogir trwy gydol y flwyddyn

Byddwch yn gynnes a chlyd yn nhywydd garwaf y
gaef hwn! Efo'n:-

*Sanau a Sweaters Trwchus

*Dillad Thermal

*Capiau a Menyg Gwlân

*Cotiau ac Esgidiau Dal Dŵr

i grddwyr, ffermmwyr ac ati, 'does dim esgus ichi
wlychu na rhynnu.

Siwperi traddodiadol – cynllun Norwyaidd a pha-
trymau lliwgar newydd gan Wendy Lawrence.

Cofiwch – i ddringwyr a llawer mwy



joe brown

CLIMBING & CAMPING
EQUIPMENT SPECIALIST

Ffôn: LLANBERIS 870327

Hefyd yng NGHAPEL CURIG (tu cefn y Post)
069 04 205

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

ROYAL VICTORIA HOTEL

GWESTY BRENHINOL VICTORIA
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL

oddi wrth



WESTY

BRENHINOL

VICTORIA

LLANBERIS


FFÔN: LLANBERIS 870253



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Ken, Meril a phawb yn
STORFA PADARN

SPAR 



LLANBERIS
FFôn: 871050

diolch am eich cefnogaeth yn ystod ein blwyddyn gyntaf

Mae Jim a Bonnie Hargreaves
PADARN SPORTS

Stryd Fawr, LLANBERIS
Ffôn: 870777

yn diolch ichi am eich cefnogaeth yn ystod ein blwyddyn gyntaf mewn busnes yn y pentref. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Sue Lowe

**odyn
copr**

parc
padarn

llanberis



Am wasanaeth fframio cyflawn - LLUNIAU TYSTYSGRIFAU, TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD


Ffraniwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS

870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch cartref os dymunwch

SIOPAU COED

STRYD FAWR

LLANBERIS



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU



oddi wrth



W.J. DAVIES

**MODURDY'R
WYDDFA**

LLANBERIS Ffôn: 870225



M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos
Hefyd

JOHN WHITE

THE BODY SHOP
LLANBERIS

- ★ Trwsio wedi damweiniau
- ★ Ailsbreio
- ★ Curo paneli

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Sheila a Richard
perchnogion newydd



SEREN

47 STRYD FAWR
LLANBERIS 871060
BWYDYDD IACHUSOL
FFRWYTHAU A LLYSIAU
YN FFRES O'R FARCHNAD



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth

**PAT A JOHN
TŶ BWYTA**

Stryd Fawr
(Drws nesaf i Fanc y Midland)

LLANBERIS
BWYD BLASUS
AR EI ORAU

CELF Y COPÄON
MOUNTAIN ART



STRYD FAWR
LLANBERIS
870925

Am Luniau mynyddoedd:
*peintiadau
*printiadau
*poster
*ffotograffau

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA I BAWB.



**FIDEO'R DDRAIG
FIDEO'R DDRAIG
FIDEO'R DDRAIG**

**Y SIOP FIDEO NEWYDD
YN LLANBERIS
AGOR DYDD GWENER
25 TACHWEDD**

**7 Diwrnod yr Wythnos
10 a.m. – 9 p.m.
AELODAETH
AM DDIM**

**Tocyn Raffl am ddim
gyda phob ffilm a
rhentir – gwobrau
gwyh bob wythnos
HEB DALU DIMAI!
YMUNWCH RŴAN!!**

**FIDEO'R DDRAIG,
STRYD FAWR
LLANBERIS TEL: 870777**

**Nadolig Llawn
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth**

**GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y**

**PRINCE OF
WALES
LLANBERIS
870708**

**Cwrw blasus
Croeso cartrefol**



**Adloniant:–
Nos Sadwrn
Canu Cymraeg efo'r organ**

**Nos Wener
Adloniant Byw**

**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**



ODDI WRTH

**Y TEULU
RUDKIN
LLANBERIS**

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH DRWY'R FLWYDDYN



**Lle Rhagorol
l Brynu Eich
Anrhegion Nadolig!**



**Llanberis
Art & Craft**

**Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda**

Ffôn: LLANBERIS 870597

**Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth bawb yn y**

Gwynedd Hotel


& Restaurant



LLANBERIS 870203

**Diolch yn fawr am eich
cefnogaeth yn ystod y flwyddyn**

Oddi wrth gwmni Trên Bach yr Wyddfa



**SNOWDON
MOUNTAIN RAILWAY**

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



DYMUNA
MERVYN, JILL, HELEN,
GLENYS ac APPY

CASTLE
GIFT SHOP

LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.
Diolch ichi am eich cefnogaeth

Galwch eto am: Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigarets,
Melysion, Llyfrau a llawer mwy

GLEN'S FOOTWEAR



Stryd Fawr
LLANBERIS 871470

Dymuna Glen a Wil ddiolch i'w holl gwsmeriaid am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb



BRYSIWCH I GAEL EICH
TEGANAU, SIOCLED,
CARDIAU NADOLIG AC
ANRHEGION CAIN

YN SIOP
GWYNETH AC EIFION
ROBERTS

LLANBERIS 870491

NADOLIG LLAWEN

A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

ODDI WRTH

BECWS ERYRI

STRYD FAWR
LLANBERIS 870491

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Garvin, Wil a Tim

W.G. ALLSUP
Storfa Gig Glan Padarn



LLANBERIS 870319

Nadolig Llawen oddi wrth bawb yn

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman
LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa wythnosol.
Dewch i weld ein amrywiaeth eang o fwydydd
Siwgr, Cawl Blawd, Cnau, Pasta,
Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych,
Grawnfwydydd etc.

CEWCH BWYSO EICH HUN YN ÔL EICH ANGEN
AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Bro Elidir (Ffôn: 871 0430).

ADFERIAD BUAN: Dymunwn adferiad buan i'r canlynol:

Pamela Macavane, Maes Padarn; Mrs Ann Jones, Dol Elidir; Bethan Jones, Maes Padarn; Mr Derek Jones, Coed y Glyn; Owain Griffiths, Dol Elidir; Mr Twm Parry, Stryd Yankee; Betty Roberts, Rock Terrace; Sandra Cuthbertson (gynt o Blaen Ddôl) arôl ei damwain; Alwena Roberts, Idan House; Iwan Harding; Gwyn Williams, Rhos Cambrian; Karen James Jones, Maes Padarn.

LLONGYFARCHIADAU i'r rhai canlynol ar achlysur eu penblwydd yn ddeunaw oed:

Andrew Evans, Stryd Yankee; Keith Jones, Rhos Cambrian; Glyn Hughes, Stryd yr Wyddfa; yr efeilliaid Nia a Sian Griffiths, Dol Elidir.

LLONGYFARCHIADAU i Eirlys a Daryl Jones, Siop Goed ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Gwen;

hefyd i Jennifer ac Alwyn Hughes, Water Street ar achlysur genedigaeth eu mab bach, Luke.

CYDYMDEIMLWN Â'R CANLYNOL: Mrs Nellie Owen a Kevin, Dol Elidir yn eu profedigaeth o golli gwr a thad, sef Mr Vincent Owen.

Mrs Menai Jones, Glanrafon Terrace a Marian a Carys Hughes, Stryd Yankee yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith ac ewythr o Gaernarfon.

Mrs Hilary Jones, Maes Padarn yn ei phrofedigaeth o golli ewythr.

DYMUNA Sheila a Jim Edwards, 1 Chapel Road, Witheridge, Tiverton, Dyfnaint ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd eu mab Gwyndaf ar achlysur ei benblwydd yn ddeunaw oed.

LLONGYFARCHIADAU i Gwyndaf Rees Edwards, Dyfnaint (nai Mrs Jean Roberts, 13 Stryd Goodman) ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

DIOLCH: Dymuna Mr Robert Vaughn ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag at y teulu yn eu profedigaeth o golli mam. Diolch yn fawr.

BRIGAD AMBIWLANS SANT IOAN: Dyma ganlyniadau yr hel o dy i dy a fu'n ddiweddar: M Willis: £14.09; A Jones a M Rodgers: £22.58; H Parry a A Thomas: £37.74; G Owen a M Davies: £24.71; G Parry: £22.04; Christine: £3.48; B Roberts, Nant Peris: £14.45.

Cynhaliwyd Noson Goffi yng Nghapel Coch yn ddiweddar a gwnaed elw o £115. Diolch i bawb a gyfrannodd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan, Hydref 27. Yn absenoldeb Mrs Hannah Jones a Mrs Jan Davies, llywyddwyd y cyfarfod gan yr ysgrifenyddes.

Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo gan y drysoryddes a darllenwyd y llythyr misol.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Jan Davies a Mrs Hannah Jones. Apeliodd yr ysgrifenyddes am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyfarfod Blynnyddol mis nesaf. Oherwydd salwch methodd ein gwraig wadd, sef Mrs Hannah Jones, ddod i'r cyfarfod. Y gwestwagedd oedd Mrs Dwynwen Roberts a Mrs Helen Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones.

CANGEN YR URDD: Dymuna pwyllgor y mudiad uchod ddiolch o galon i Mr Gwynfor Roberts, Ffordd Capel Coch am ei rodd ariannol i ddechrau y gangen ar ei ffordd.

Nos Wener, Tachwedd 11 yng Ngwesty Dolbadarn cynhaliwyd Bingo at yr Urdd. Gwnaed elw o £87.94. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Bydd y Bingo nesaf ar Ionawr 13, tuag at Glwb y Gateway i blant methodig. Os ydych eisiau cyfrannu at y gwobrau, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â Mrs Ann Jones, Dol Elidir; Mrs Iola Sellers, Dol Elidir neu Mrs Carys Hughes, Stryd Yankee. Diolch yn fawr.

CWMNI DRAMA LLANBERIS: Ni fydd y Cwmni yn casglu papur eto. Hoffem ddiolch o galon i bawb o'r ardal fu mor garedig yn ein helpu yn y maes yma yn y gorffennol.

PEN-BLWYDD PRIODS DDI-AMWNT: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Idwal Thomas, Dolwerdd, 2 Preswylfa ar ddathlu tri ugain mlynedd o fywyd priodasol ar Dachwedd 7fed. Canwyd penillion iddynt gan Mr J H Hughes, cynbrifathro'r ysgol.

O mor hardd yw pryd y loeren,
O mor hardd yw ffrwyth mwyaren,
O mor hardd yw'r ôd yn gorwedd,
Harddach cymod dau o Ddolwerdd.

Dod i ben mae dyddiau dedwydd,
Dod i ben mae hwyrnos hafddydd,
Dod i ben mae melys oriau,
Dal yn gryf eich cariad chwithau.

Cryf yw corwynt oer mis Chwefror,
Cryf yw timestl ar y cefnfor,
Cryf yw creigiau moel Eryri,
Cryfach serch efe a Jini.

Byr yw oes y blodyn lliwgar,
Byr yw oes y gwllith grisialgar,
Byr yw oes y don a'r ewyn,
Hir yw cwlwm cariad rhywun.

Bywiog ydyw llif yr afon,
Bywiog naid y wiwer dirion,
Bywiog pranc yr oen diofal,
Byw yw cwlwm hi ac Idwal.

Gwywa'r ddeilen ar y dderwen,
Gwywa'r Hydref mewn ysblander,
Gwywa'r nos ar doriad gwawrddydd,
Mae eich cymod chwi'n dragywydd.

J.H. Hughes



Mr Ieuan Ellis, Cadeirydd Cyngor Cymdeithas Llanberis yn cyflwyno rhodd i rai o blant Ysgol Dolbadarn a fu'n cynllunio posteri 'Cadw Llanberis yn Daclus'.

ATODIAD DEINIOLEN

CLWB ELIDIR: Bu cyfarfod o'r uchod ar y 4ydd o Hydref pryd y treuliwyd prynhawn difyr yng nghwmni Miss Jean Moeller yn dangos sleidiau o'r Sioe Flodau yng Nghaeredin. Diolchwyd iddi gan Mrs Williams, Bwthyn.

Cyflwynwyd sic o £25 i'r Clwb gan Gwilym, Gwen a Lena, plant y diweddar Mrs Nancy Rowlands a fu yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r Clwb am flynyddoedd lawer, er cof amdani.

Cydymdeimlwyd â Mrs Williams, y Bwthyn ar golli ei brawd yn ddiweddar. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Ll Jones, Mrs J Eirlys Williams a Miss Eileen Williams a diolchwyd iddynt gan Mrs Jane Jones. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Miss Eileen Williams gan Miss Lizzie Thomas.

Yn ystod y prynhawn talwyd ymweliad gan y Parch John

Pritchard, sydd newydd ddechrau ar ei waith yn gweinigogaethu yn y cylch fel olynydd i'r Parch Trefor YR YSGOL FEITHRIN: Cafwyd noson dân gwyllt eithriadol o lwyddiannus yn yr Ysgol Feithrin ar Dachwedd 5ed. Da oedd gweld y llu cyfeillion o bob oed a ymunodd â ni ynghanol y tân a'r brwmstan! Mae'n amlwg nad oes dim byd tebyg i apêl am gefnogaeth yn Eco'r Wyddfa! Diolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at hwyl y noson. Edrychwn ymlaen at eich gweld i gyd eto'r flwyddyn nesaf.

Os oes gennych hen degannau neu gemau plant mewn cyflwr da yn barod i'w taflu i wneud lle i anrhegion Nadolig, beth am gysylltu â ni? Mae gwir angen tegannau o bob math arnom a gallwn drefnu i'w casglu os oes galw. Cysylltwch â Nest Efans, Afon Goch. Ffôn: 870068.

STONDIN AR FAES Y BRIFWYL

A ydych chwi yn bwriadu cael stondin ar faes Eisteddfod Genedlaetehol Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau a gynhelir yn Llanrwst mis Awst nesaf?

Os ydych dylai eich cais gyrraedd Swyddfa'r Eisteddfod erbyn y dydd cyntaf o Fawrth.

Yn ôl llefarydd mae dros 250 o fusnesau a chymdeithasau eisoes wedi dangos diddordeb mewn cael stondin ar y maes.

Mae'r ffurflenni cais ynghyd â'r llyfryn sy'n nodi'r rheolau ac amodau i denantiaid ar gael o Swyddfa'r Eisteddfod, y Sgwâr, Llanrwst, Gwynedd LL26 0LB (0492) 640281.

Bistro

43-45 STRYD
FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871781

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES
CAERNARFON
Ffôn: 3075

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Danny a Nerys Roberts a'r holl staff

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)



Angharad Tomos yn difyrru plant adran yr Urdd

YR URDD: ADRAN BENTREF: Nos Fawrth, Tachwedd 1af: Daeth 37 o blant ynghyd yn eiddgar i ymaelodi am flwyddyn arall. Ymunodd Mr Arwel Jones â ni a mwynhaodd pawb eu hunain yn canu gydag ef. Diolchwyd iddo gan Eryl.

Nos Fawrth: Tachwedd 8fed: Daeth Miss Angharad Tomos atom i sôn am sut yr aeth ati i ysgrifennu ei llyfrau a daeth a'i ffrindiau, Rwdlan, Rala Rwdins, Ceridwen, Dewin Dwl a'r Llipryn Llwyd gyda hi. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw. Diolchodd Andrea Paterson i Angharad Tomos.

Nos Lun, Tachwedd 14eg: Yn Neuadd yr Eglwys yr oeddem yn cyfarfod y tro hwn am fod yno fwy o le i Mrs Judith Harding wneud tipyn o ddawnsio gwerin gyda'r plant. Diolchodd Llyr i Mrs Harding.

Dydd Sul, Tachwedd 13eg: Cynhaliwyd gwsanaeth Sul yr Urdd yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen. Llongyfarchiadau i'r plant am wneud eu gwaith yn rhagorol ac i Anti Nant am drefnu rhaglen ar eu cyfer a'u dysgu.

NOSON TÂN GWYLLT: Ar gais y plant cafwyd coelcerth a than gwyllt, nos Sadwrn, Tachwedd 5ed. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo i wneud y noson yn un ddiogel a llwyddiannus. Gwnaed elw o £17.62.

YSGOL FEITHRIN: Cynhaliwyd Ffair Sborion, nos Wener, Tachwedd 12fed yn neuadd yr Eglwys i godi arian i'r Ysgol Feithrin. Diolchir yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiant, yn enwedig i Mrs Myfanwy Parry a Gwenllian a phawb a helpodd yn y gegin. Gwnaed elw o £131.02 tuag at y Gronfa.

Byddwn yn gorffen y tymor gyda pharti Nadolig i'r plant ar Ragfyr 15fed. Byddwn yn ail ddechrau yn YSGOL TAN Y COED ar Ionawr 3ydd am 10.00 a.m. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni. Diolchir i'r Prifathro a'r Llywodraethwyr am ganiatáu i'r Ysgol Feithrin gael ei chynnal yn yr Ysgol yn ystod tymor y Gwanwyn

LLONGYFARCHIADAU calonnog i bob un o'r pentref a gymerodd ran yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Braf iawn oedd gweld Sioned Williams a Dylan Pierce yn actorion profiadol! ar y llwyfan ac Olwen hithau yn cael y fraint, fel capten Tim Elidir, o dderbyn y Cwpan am y Ty buddugol.

A hithau eisoes wedi bod yn ail a thrydydd am y Gadair, pleser mawr oedd gweld Eurgain Haf yn dod i'r brig eleni. Llongyfarchiadau Eurgain a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Rydym yn magu "defaid" da yma ym Mhenisarwaun hefyd - "dafad bedair llygeidiog" a enillodd y wobr gyntaf i Barti Bechgyn Gwyrfa.

CLWB YR HEULWEN: Cydymdeimlwyd â theulu Mr Goronwy Owen Jones, Caerffynnon a fu farw Tachwedd 9fed. Cydymdeimlwyd hefyd â theulu Nesta Pritchard sy'n byw yn y Rhyl.

Pnawn Mawrth, Tachwedd 15 croesawyd Mrs Meira Griffiths, Crud yr Awen. Cafwyd ei hanes ar ei gwyliau yn yr Unol Daleithiau. Diolchwyd iddi gan Mrs Nel Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs A Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs J M Jones a Mrs P Williams.

Trefnir Swper Nadolig nos Fawrth, Tachwedd 29ain. Enwau i Mrs Mary Davies.

YSGOL TAN-Y-COED: Cynhelir y Gwasanaeth Nadolig eleni yn Eglwys Santes Helen, ar nos Iau, Rhagfyr 5ed. Bydd casgliad tuag at Gronfa'r Ysgol.

Diolch i bawb a gyfrannodd at ymdrechion y plant i helpu achos Barnados. Casglwyd £147.9 - swm anrhydeddus iawn.

Bu plant yr Adran Iau yn ymweld â Theatr Gwynedd, lle mwynhawyd cyflwyniad Mathemategol ei naws gan Theatr Molecule.

Ymwelodd Safon 1 a 2 â'r Orsaf Dân yng Nghaernarfon, fel rhan o'u gwaith ar "Dân" y tymor hwn.

Croesawn Miss Iola Morris, myfyrwraig o'r Coleg Normal i'n plith gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein cwmni.

PWYLLGOR NEUADD: Nos Lun, Hydref 31 yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 pm cynhaliwyd Noson

Calangaeaf. Daeth cynulliad tei-wng iawn yno ac anodd iawn oedd i'r beirniad, Tom Richmond, feirniadu'r cystadlu brwd. Diolch iddo am ei eiriau caredig i bob cystadleuydd ac am wneud y noson yn un ysgubol. Dyma'r canlyniadau - 1af yn unig:

Lluniau Calangaeaf:

Dan 4 oed - Dewi Wyn; Dan 6 - Gavin; Dan 7 - Lynne; Safon 1: Iwan; Safon 2 - Cathryn; Safon 3 - Lois; Safon 4 - Llion ac Arwel; Dros 12 oed - Dylan Pierce.

Y Wisg Orau: Dan 4 - Pob cystadleuydd yn gyntaf! 4-6 oed - Nia Porter; 6-7 oed - Elgan; Safon 1 a 2 - Ian a Craig; Safon 3 a 4 - Sioned a Lois; Dros 12 oed - Owen Turner.

Yr Ysgub Orau - Cadi Fôn.

Mwgwd - Erin. Jac Lantern - Aled.

Swynion -Lois. Teisen: Dan 12 oed - Sioned Wyn; Dros 12 oed - Rhian Price Williams.

Diolchir i Rhian am roi ei theisennau ar ocsiwn, fe'u prynwyd gan Tom Richmond ar gyfer Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd.

Diolchir i Delyth Williams am roi y Raffl, fe'i henillwyd gan Myfanwy Parry.

Enillwyr Clwb Cant mis Hydref oedd: 1. Miss Elen Davies, Wrecsam; 2. Mrs A Huws, Cae Hywe; 3. Mrs Eileen Thomas, Bryn Gaer. Diolchir i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant y noson.

Tachwedd 23, nos Fercher, cynhelir Parti Tupperware yn nhy Mrs

Heulwen Evans, Bryn Eglwys, yr elw tuag at y Neuadd. Tynnir Clwb Cant Tachwedd yno.

Gobeithir cynnal noson o ganu Carolau ar y cyd â Phwyllgor Eisteddfod Bentref yn ystod mis Rhagyr.

GWELLHAD: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl yn y pentref. Deallwn fod Mrs M J Roberts, Nathan Jones, Owen Thomas a Carol Porter yn gwella wedi triniaeth yn yr Ysbyty. Gobeithio fod David Ash, Commercial House yn well wedi damwain go arw i'w goes.

SYMUD I FYW: Pob dymuniad da i Mr a Mrs Glyn Ifans a'r plant, Ty Newydd, Waun, sy'n symud i fyw i Brestatyn.

YSGOL SUL BOSRA: Cynhelir gwasanaeth Nadolig gan blant yr Ysgol Sul, Fore Sul, Rhagfyr 18fed am 10.00 a.m. "Nadolig 1588" fydd y stori eleni. Croeso cynnes i bawb.

PARTI NADOLIG: Bwriedir cynnal Parti Nadolig i blant Ysgolion Sul Bosra ac Eglwys Santes Helen yn Neuadd yr Eglwys yn ystod yr wythnos cyn y Nadolig. Byddwn yn hynod falch o unrhyw gyfraniad at y parti.

DIOLCH: Dymuna Mrs M.J. Roberts, 5 Llys y gwynt, ddiolch i'r gweinyddesau a'r doctoriaid yn Ysbyty Gwynedd ac i'w theulu, ei chymdogion a'i ffrindiau oll am eu gofal ac am eu caredigrwydd yn ystod yr amser y bu'n wael yn ddiweddar.



Plant Safon 1 a 2 Ysgol Tan-y-Coed yn ymweld â Gorsaf Dân Caernarfon.



Tom Richmond ac enillwyr Cystadleuthau Noson Calan Gaeaf.

GWRAIG TŶ A CHAPEL

Goronwy Owen

Daeth Haleliwia Elin Jones i ben. Peidlodd â chanu. Od iawn, oherwydd wrth llau'r capel fe ganai fel yr oes. Wedi'r cwbl, onid Elim oedd y capel bach mwyaf enwog yn y cyffiniau. Ond y bore hwn, fe beidlodd Elin a chanu, ac ochneidlodd. Oedd, roedd y blwch yn wag. Trôdd o a'i ben i fyny, ac edrychodd i mewn ag un llygad drwy'r pum twll oedd ar y top crwn, ond duwch yn unig oedd l'w weld tu mewn. Doedd ynddo ddim mwy o bowdwr gwyn. Gyda rhyw obaith diangenrheidliol, trôdd o a'i ben i lawr, a'i ysgwyd unwaith yn rhagor, ond ni ddaeth yr un gronyn allan ar y llawr pren, ac ochneidlodd hi eto.

Mi fyddai raid iddi hi siarad â Sam Edwards yr ysgrifennydd. Wedi'r cwbl, roedd ganddo ef gyfrifoldeb yn ogystal â hi. Dywedodd wrtho rhyw fis yn ôl fod y 'polish' bron a dod i ben, ac fod arni angen rhagor, ond nawr, roedd petha yn wpsila. Dim ond un blwch oedd ar ôl, a dim golwg am ail gyflenwad. Chwarae teg, nid bai Sam Edwards oedd hi chwaith. Bu ar y teliffon yn holi cant a mil o siopau ac ystorfaeu, ond ni chafodd lwc yn unman. Cerddodd o amgylch y dre, yn Aberafan a Phenybont yn holi y siopwyr bach, ond ni allai neb ei gynorthwyo. Doedd neb wedi clywed am yr 'Ogwr Polish'. Neb. Digon o ysgwyd pen ac ymddiheuro, ond 'Na' oedd pob ateb a Na pendant hefyd, gydag ambell i edrychiad od trywannog, wrth iddo gerdded allan o'r siop. Roedd o wedi trio Alice Sommerville unwaith eto, er ei bod hi wedi cwpla hefo'r busnes ers blynyddoedd, ond camgymeriad dybryd oedd mynd yno, oherwydd fe dorrodd y wraig druan allan i grio, a bu raid i Sam aros yno am dros awr i'w chysuro. "Roedd hi'n crio fel babi." Dyna oedd ei eiriau, "crio a chrio a chrio. Llif o ddagrau."

Pwy fasai'n meddwl y byddai y Jac Sommerville 'na yn chwarae tric mor wael, yn gadael y greaduras fach fel ffliwt, ac yn diflannu i berfeddion Brasil neu rhywle hefo merch hanner ei oed. Doedd dim dal ar ddyinion weithiau. Roedd ganddo fusnes da, cartre cyfforddus a gwraig fach ddeniadol, a dyna fo'n codi'i gwt a diflannu i Dde America hefo rhyw hoyden ifanc. Roedd o'n haeddu'i saethu. Oedd wir. Doedd Elin Jones ddim yn cydweld a'r fath ymddygiad. Ond wedi dweud hynna, rhaid oedd i wraig y Ty Capel gyfaddef fod ganddo siar yn yr ail-fywahau a fu yng Nghapel Elim, ac am hynny, roedd

hi'n ddiolchgar iddo. Onid ydyw Duw yn gweithio trwy ddirgel ffyrdd? Oedd, roedd Elin yn ddiolchgar am hynny. Yr un pryd, gwyddai ei bod hi ei hun yn haeddu mymryn o glod am y diwygiad yn hanes presenol y capel bach, os y gallech ei alw yn ddiwygiad. Hi oedd yn gwneud y gwaith caled. Gwariai oriau yn glanhau'r adeilad, o fore Llun i nos Wener. Arferai droi i mewn rhyw ben o bob dydd, i wneud rhywbeth bach, ac roedd y lle fel pin mewn papur; dim sbecyn o lwch yn unman, ac arogl lân hyfryd fel persawr gardd Eden yn codi o bob cornel, ond cofiwch, roedd h'n eithaf parod i gyfaddef mai 'polish' Jac Sommerville oedd yn cyfrannu'r fath wynt hudolus. Cofiai yn iawn fel yr aeth hi a Sam Edwards i warws Jac i nôl y 'polish', ar ôl iddo ddiflannu hefo'i ffliwsi o Gaedydd. Roedd Sam wedi bod yn rhy ffyddiog, yn ôl ei natur, ac wedi talu'r bil cyn cael y cwbl o gelfi llau'r capel. Wedi derbyn eu cydymdeimlad, drwy'i dagrau dywedodd Alice, "Does dim ond bum boc ar ôl. Mae o wedi cael gwarded a bron y cyfan." Yna gwaeddodd mewn llais torcalonus "Ech a fo i gyd. Ewch a'r blydi lot. Dydw i ddim isio gweld dim ohono. Rhyw hen stwff mae o wedi bod yn 'i baratoi ei hun ydy o. Am fisoedd mae o wedi bod yn cau'i hun yn y warws 'ma yn 'i bacio. Deud i fod o'n mynd i wneud 'i ffortiwn ffortiwn iddo fo a'r hen ast ddigywilydd 'na." Yna torrodd i wylo'n hidil, a bu raid i Elin a Sam ei chysuro cyn cario y pum boc mawr yn llawn o'r blychau crwn i'r car, a'u cario i'r festri fach i'w cadw. Wyddai hi na Sam ddim ar y ddaear beth oedden nhw. Yr unig enw ar y blychau mawr oedd 'Ogwr Polish', a stwff anodd oedd o i weithio gydag o. Roedd angen dwbwl gymaint o saim

penelin i gael sglein, ond roedd y canlyniadau yn ardderchog. Wrth i chi agor y drws, codai arogl nefolaidd i swyno'ch holl deimladau. Bu cynydd eithriadol yn y gynulleidfa. Roedd yr hen a'r methodig yn gwneud ymdrech arbennig i fynychu'r oedfaon, a brolia llawer un fod awr o foli yn Elim yn well na mis o wyliau yn Gran Canaria. Ac o - y canu, y canu! roedd o tu hwnt. Pedwar llais bob Sul. Ni allai côr o angylion greu cerddoriaeth mor fendigedig. Crynnai'r adeilad hefo pob Haleliwia, a'r fenidith ychwanegol oedd fod hanner dwsin o gyfeilyddion ifanc yn ysu i gael Sul ar yr organ.

Ac am y pegethwyr. Wel. Fe gredech fod pob un yn Evan Roberts neu yn un o'r hoelion wyth. Oedfa ar ôl oedfa yn cael ei gwefreiddio, pregethwyr distadl yn ymgolli mewn hwyl angylaidd, a phregethwyr sych yn blaguro'n ddamegwyr syfrdanol. Roedd hyd yn oed yr hen Ifan Huws a arferai ddarllen ei bregethau, yn aml o'r tu ôl ymlaen, yn cael ysgytiad fach ar y gynulleidfa. Oedd, roedd Capal Elim wedi dod yn nodedig drwy'r ardal. Gwenodd Elin iddi'i hun wrth edrych ar y blwch gwag. Hannai'r cyfan o'r Jac Sommerville 'na. Wedi eiliad o synfyfrio, cododd a cherdded trwy ddrws y cefn i'r festri fach i nôl y blwch olaf, er gorffen ei gwaith.

"Mrs Jones," Trôdd yn ôl i weld pwy yn y byd oedd yn ei galw.

"Mrs Jones, munud fach."

Deuai'r llais awdurdodol o'r cyntedd. Un o blismyn y dre, a rhy-

wrai eraill yn sefyll y tu ôl iddo, un ohonynt hefo ci, ia, ci mewn capel.

"Esgusodwch fi," crynodd llais Elin. "Ewch a'r ci 'na allan, os gwelwch yn dda. Does dim cwn i fod i mewn yma. Mae'r capel yn addoldy halogedig."

Camodd rhyw ferch ifanc mewn iwniform ymlaen.

"Mae'n flin gennym Mrs Jones, ond mae'n angenrheidiol arnom i chwilio'r adeilad. Fyddwch chi ddigon caredig i gydweithio gyda ni."

"Chwilio'r adeilad. Bobol mawr, am beth?"

Ond eisoes, roedd yr hen gi bach yn mynd yn wyllt, gan redeg yma ac acw, ei ffroenau ynghlwm wrth y llawr a'i gwt yn ysgwyd fel injan ddyrmu. Dan y seti, drwy y set fawr, uchwbent y cloc, lan ar ben y pulpud a drwodd i'r festri fach y tynnodd y cwnstabl druan, oedd yn amlwg yn ffael cadw rheolaeth gyflawn ar yr anifail anhydyn.

"Stopiwch o," gwaeddodd Elin yn ofidus. "Stopiwch o. Edrychwch ar ôl ei draed o ym mhobman. Allai byth a chael y lle i drefn."

Does ryfedd fod diwygiad wedi dod i Gapel Elim. Dim rhyfedd i Sam Edward fethu cael rhagor o'r 'polish cartre'. Dim rhyfedd fod Jac Sommerville wedi gwneud ei ffortiwr a'i heglu hi i fyny'r Amason hefo'i 'sweetie pie'.

Tydi Elin Jones ddim yn canu mwyach wrth lanhau'r addoldy. Wedi'r cyfan, ddim pob capel sydd yn cael ei bolisho gyda 'MARIJUANA'.

MEDALAU THOMAS GEE a MEDALAU MRS DORIS BEVAN-EVANS

Derbyniasom y wybodaeth isod oddi wrth Gyngor Eglwys Rhyddion Cymru.

Gwahoddir ceisiadau am y Medalau uchod oddi wrth aelodau Ysgolion Sul Cymru sydd dros eu pedwar ugain oed.

Yr unig amod yw bod y person 'yn PARHAU i fynychu'r Ysgol Sul'. Wedi cyflawni'r amod gwbl angenrheidiol uchod, bydd y dewis wedyn yn dibynnu ar yr oedran yn unig. Sylweddolwn bod nifer helaeth ar gael yng Nghymru bellach sydd yn haeddu cael eu hanrhydeddu am ffyddlondeb i'r

Ysgol Sul, ond nid ydynt bellach yn mynychu'r Ysgol Sul, fel y dymunent. Trueni na fuasem wedi cael eu ceisiadau yn y gorffennol pan oeddynt yn mynychu'r gyson. Does dim byd i rwystro yr Ysgol Sul lleol i anrhydeddu y cyfeillion hyn.

Anfoner am y ffurflen briodol fel a ganlyn:

DE: Y Parch Dewi Daves, 6 Queen Street, Llanelli, Dyfed;


GOGLEDD: Y Parch J Haines Davies, 'Golegell', 24 Ffordd Cadwgan, Hen Golwyn LL29 9PY.

I gyrraedd erbyn Ionawr 1, 1989

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o loriau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552



Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)





Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal Boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



ECO'R IFANC

Mae'r Nadolig bron a bod yma, a chyn inni gael amser i droi mi fydd hi'n 1989! Dechrau blwyddyn newydd unwaith eto. Mae'n amser felly i feddwl am wneud addewidion newydd. Beth amdani - Oes ganddoch chi rai i'w rhannu gyda ni? Dyma'r gystadleuaeth am y mis yma - TRI ADDUNED BLWYDDYN NEWYDD AM 1989. Fe fydd 'na wobwr i'r tri sydd yn rhoi'r addunedau mwyaf gwreiddiol i ni! Anfonwch eich cynigion i'r GORNEL, ECO'R IFANC, PANT BRYN GWYN, TAN Y COED, LLANRUG. Hwyl tan tro nesa!!



CORNEL Y PLANT IAU LLIWIWCH YR ANGEL



MWY O JÔCS GWael

Esgusodwch fi, ydy'r ci yna yn hoffi plant?
Ydy, ond mae'n well ganddo fo selsig!

ha ha! ha ha!

Cnoc! Cnoc!
Pwy sy 'na?
Afal.
Afal pwy?
A fal o'n i'n dweud ...

Cnoc! Cnoc!
Pwy sy 'na?
Dyfan.
Dyfan pwy?
Dy fan di oedd tu allan?
Ia.
Wel, ma' rhywun newydd ei dweud hi!

CERDD Y MIS

YN DAWEL YM METHLEHEM
Yn dawel fach ym Methlehem
Digwyddodd rhywbeth hud -
Mewn preseb tlawd ar ddiwedd dydd,
Fe anwyd Crist i'r Byd.

Y seren ddisglair yn y nos -
Mor siriol ac mor fwyn
A'r lleuad wen yn gwenu'n llon
A'r angel sy'n llawn swyn.

Daeth doethion a bugelliaid mwyn
I weld y baban mud.
A Mair ei fam yn suo cân
I'r Iesu yn ei grud.

Delyth W Humphreys (9 oed)

Ysgol Gynradd Llanrug

Delyth Humphreys o Lanrug sydd wedi ysgrifennu'r gerdd fach hyfryd yma, a hi sydd yn ennill y wobwr am y mis yma. Da iawn ti Delyth, mae'r wobwr ar ei ffordd ...

CORNEL JÔCS

Pam fod gan elliffant drwnc mawr?
Am ei fod yn rhatach na dau ges bach!

Beth fyddech chi'n galw huch Esgimo?
Esgimw.

Doctor! Mae Wil wedi llyncu bwled! Beth wna i?
Wel, paid a'i bwyntio fo ata i!

ha ha! hi hi!

Be 'ti'n galw dyn tal sy'n anelu gwn atat?
SYR!!

Pa swn mae'r gath yn wneud wrth fynd i lawr yr M4?
Miiiiii-a-a-a-ow-wwwww!

Hei, Idwal!
Be?
Wyt ti'n gwybod beth mae lladron yn ei fwyta?
Be?
Biff-byrglars!

Be gewch chi wrth daflu afalau i lawr ochr mynydd?
Afal-ansh!

Be gewch chi wrth groesi afal ac Albanwr?
Tartan Afal!!

ha ha!
hi hi!



Be 'ti'n galw dyn sy'n gwisgo côd law?
Mac!

Be 'ti'n galw mwy nag un dyn?
Dai!

Be 'ti'n galw dyn sy'n cysgu o dan y gwely?
Dan!

Agor Ffiniau'r Gorffennol HEN EGLWYSI A CHAPELI

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Does dim mwy diddorol na hanes cychwyn eglwys! Yr oedd yn rhaid i rywun feddwl am gychwyn pob eglwys. Yr oedd y llafur gwirfoddol a roddwyd gan yr hen famau a thadau yn anhygoel bron a'u haberth yn gysegredig.

Y mae aml i hen eglwys a chapel yn sefyll yn gadarn. Ond gwyddom am rai eraill nad oes odid garreg ohonynt yn aros, ac na wyr ond ychydig ohonom yn yr ardal pa le y safont. Nid oes ond ychydig iawn o hen gapeli cyntaf Cymru yn aros. Fe ddylai eu coffadwriaeth gael ei gadw i'r oes sy'n dyfod. Trwy'r capeli diaddurn y gwnaed Cymru a'r Cymry yr hyn ydynt. Pregethwyd yr Efengyl bur o'u mewn, gan ddynion wedi eu hysbrydoli gan nerth Duw. Yr oedd gwres cariad yr Efengyl yn uno pobl yn un Seiat a'r bobl yn raddol yn cael eu goleuo. Sefydlwyd yr Ysgol Sabothol a thyfodd ysgolion di-rif a cholegau i ddysgu gwerin Cymru.

Hen Gapel

Yn hedd yr unigeddau - yno'r oedd Gorsedd Gras y tadau;
Y man lle bu emynau
Yr oesau gynt, mae drws cau.
S Richards (Ab Ifan)

Lowri William 1755

Tybed a glywsoch chi sôn am wraig o'r enw Lowri William? Hen wraig ardderchog oedd hon, yn byw gerllaw Maentwrog amser y Diwygiad. Byddai Lowri William yn gweddio dros ei chymdogion, yn eu rhybuddio ac yn manteisio ar bob cyfle i wneud lles i bawb. Yr oedd Lowri William yn byw ym Maentwrog yn 1755 - blwyddyn geni Thomas Charles o'r Bala.

Yn fuan sefydlwyd eglwys yno a gelwid hi Arch Noah am mai wyth enaid oedd rhif yr aelodau. Pan fyddai rhywun wwedi colli'r

ffordd a churo wrth ddrws Lowri i holi am y llwybr, byddai Lowri yn gofyn wedyn fel hyn, "A fyddi di yn gofyn am y ffordd i'r nefoedd weithiau fy machgen i?" Fe drodd yr hen Lowri lawer "i'r ffordd" gyda'r cwestiwn yma.

Catrin Gruffydd

Hen chwaer dduwiol arall oedd Catrin Gruffydd yn byw yn y Penrhyn. Un tro yr oedd Daniel Rowland o Langeitho yn dyfod heibio ar daith bregethu. Yr oedd yn anodd cael adeilad addas i'w dderbyn ac i wrando arno yn pregethu. Cafodd Catrin Gruffydd ganiatâd i ddefnyddio beudy. Ond yr oedd yn rhaid i Catrin lanhau'r beudy allan yn llwyr a gwnaeth hynny tan ganu er ei fod yn waith caled iawn. Wrth glirio anhrefn yr adeilad a'i wneud yn deilwng i bregethu'r Efengyl ynddo cafodd afael ar y moddion oedd i glirio aflendid Cymru a'i gwneud yn Gymru lân.

Englyn Coffa

Gofynnais un tro i'r diweddar J R Morris, Bethel "Pa englyn fuase chwi yn ddweud yw'r englyn gorau a wnaethoch?"
Fel hyn yr atebodd J R Morris - "Englyn i Elizabeth Morris, fy niweddar wraig yw'r gorau." Dyma fo. Bu farw yn 1950.

F'anwylyd o hyd yw hi - er ymdaith
A'r amdo am dani;
A huno draw'n un o dri
Cyfnasaf fyddaf iddi.

J R Morris

Dyma englyn Gwilym R Jones (perthynas) i Elizabeth Morris
Dethol feddyllau'r doethion - a gar-
odd

A geiriadur prydyddion;
Roedd sawyr byrddau Selon
O hyd yn hyfryd i hon.

Gwilym R Jones, Dinbych

Mae cynhesaf yn golygu yr agosaf ati.

LLINELLAU A GOFIR AM BYTH

Pryf Copyn

Ei gamau yn ysgymun, - ei leidiog
Aelodau yn ddychryn:
O'i gain wê, efe a fyn
Hudo ambell wybedyn.
Tom Huws (Barddas 135-137)

Y Nos

Y nos dywyll yn ddistewi, - caddug
Yn cuddio Eryri,
Yr haul yng ngwely'r hell,
A'r lloer yn ariannu'r lli.
Gwallter Mechain
Marw i fyw mae'r haf o hyd
R Williams Parry

Y llwybrau gynt lle bu'r gân
Yw lleoedd y dylluan.
Ieuan Brydydd Hir
1731-1788 Bu farw ddau gan
mlynedd yn ôl.

"Teg edrych tuag adref." Pwy?

Hen linell bell nad yw'n bod
Hen derfyn nad yw'n darfod.
Dewi Emrys

Anfeidrol annherfynol fod
A'i hanfod ynddo'i hun.
Edward Jones, Maes y plwm

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU: Yr wythnos diwethaf daeth anrhydedd mawr i'n pentref, dwy gadair eisteddfodol i'r un ty o fewn ychydig ddyddiau. Enillodd Gwenno Hughes, Ty Mawr, Gadair Ysgol Syr Hugh Owen yn gyntaf, ac wedyn cadair yr ifanc yn Eisteddfod Bethesda. Estynnwn ein llongyfarchiadau calonnog iddi, gan ddymuno llwyddiant pellach iddi yn y dyfodol.
GER Y TÂN: Cafwyd noson hwyliog mis diwethaf yng Ngwesty Bryn Eisteddfod, Clynnog. Edrychwn ymlaen i gyd at y cinio Nadolig a gynhelir yng Ngwesty'r 'Prince of Wales' Caernarfon. Gweler hysbysfwrdd y pentref am fanylion.
CINIO NADOLIG: Cynhelir cinio Nadolig y pentref eto eleni, nos Sadwrn, Rhagfyr 17. Gwyliwch yr hysbysfwrdd am fanylion pellach.
GWELLHÂD BUAN: Dymunwn wellhâd buan i lawer o'r pentrefwyr sydd wedi cael llawdriniaeth feddygol yn ddiweddar. Bryswich

wella i gyd.
GWASANAETHAU'R CAPEL: Cynhelir y cyfarfodydd canlynol yn ystod mis Rhagfyr ar y Suliau:
Rhag 4: 2 o'r gloch, Parch Harri Parri;
Rhag 11: 2 o'r gloch, Glyn T Jones;
Rhag 18: 5.30 yr hwyr, Gwasanaeth y Plant;
Rhag 25: 10.30 y bore, Carolau bore Nadolig.
Edrychwn ymlaen at gefnogaeth y pentrefwyr oll adeg yr Wyl yn arbennig.
CYNGOR CYMUNED
Mae'r Cyngor Cymuned yn dal i ddisgwyl ymateb yn dilyn y cwynion am barcio o gwmpas croesffordd y pentref.
Mae gormod o broblemau ynghlwm â cheisio gwella llwybr troed yn ymyl Modurdy Gwalia yn y flwyddyn ariannol hon.
Penderfynwyd cyfrannu £50 yr un i Gapel Caeathro, y Clwb Chwaraeon a'r Bocsus Henoed.

CYMDEITHAS ADDYSG YR AMGYLCHFYD

Nos Fawrth, Rhagfyr 13, 1988, am 7.30 p.m.
PlasTan y Bwlch

ADARYDDA AR DIR YR YSGOL

Syniadau ar gyfer astudiaethau adaryddol yn eich hysgol
- sleidiau a ffilmiau bendigedig!
Ted Breeze Jones a'r Gymdeithas Diogelu Adar (RSBP)

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421



AM FFENESTRI A DRYSAU U. P.V.C.

Dim Paentio
Dim Pydru
Dim Rhydu
Dim stumio
Dim trafferth
Dim ond ffonio...

CAERNARFON 2935 (Swyddfa)
neu LLANBERIS 870795 William Roberts

BOY 85 -

"CAR AR GARRAI ESGID"

Edrychech chi mo'r eildro arno heddiw (1988) ond ddeugain mlynedd yn ôl, yn sgîl rhyfel blin a phrinder cerbydau o unrhyw fath, gwelwm ei botensial am fod ynddo beiriant da - fawr gwaeth na newydd.

Gwir fod ei gorff rhidyllog yn dioddef yn arw o rwd henaint ar ôl pymtheng mlynedd o'i gamdrin. 'D oedd o ddim yn dal ei ddwr chwaith, er fod ei bwmp yn eithaf iach. Roedd y llwyfannau coed a gysylltai yr adenydd blaen â'r rhai ôl, wedi gweld dyddiau gwell, ond eu bod rhywfodd yn gadernid i'r corpws. Bu iddo, do heulwen, oedd yn llithro'n ôl yn esmwyth, yn yr hafau teg hynny, cyn y rhyfel, ond a gauwyd yn glep er mwyn diddosi'r cynnwys.

Dyna ddarlun pur druenus o hen 'Ostin Deg' 1934 a fu'n gar bara am hydoedd yn ystod prinder ceir y cyfnod. Ymfalchiai mewn dwy silff bren, lle byddai y set ôl ag aroglau bara ffres yng ngwead y leinin to, llwyd. Tystiai cyflwr rhidyllog hwnnw i'r miloedd gwyfynod a fagwyd ynddo yn stêm y bara ffres. Bregus oedd ei lawr coed ar ôl mynych drochiadau pyllau dwr cleiog y dyffryn a rhaid fyddai camu yn bur ddeheuig iddo.

Wedi pwyso a mesur ei holl ffaeiddau, ni fyddai gwr busnes o fodurdy yn ei ystyried o gwbl fel gwrthrych i elwa arno. I mi roedd yn her, i brofi y gellid gwneud rhywbeth ohono, gan elwa ar y profiad a theimlo rhyw fodlonrwydd o fod wedi cyflawni y dasg. Cefais fy nghynysgaeddu â dawn y tincer, i roi cynnig ar unrhyw beth a'm heriai ac yn fy ngallu a'm profiad i'w gyflawni.

Fu'r pum mlynedd a dreuliais yn trwsio awyrennau ddim yn ofer a syniwn y gallwn roi y technegau hynny ar waith i adfer yr hen siandri yma, yng nghefn y Becws.

Wedi taro'r fargen â Bob y Pobydd; roedd y peiriant yn unig, yn werth y triugain punt a dalwyd. Yna dechreuodd yr ymchwiliad manwl a roddai imi amcangyfrif o'r gost.

Roedd o'n llac, ag ôl traul arno ymbob cymal. Byddai'n rhaid gwella rhannau, lle y gellid a chyfaddawdu mewn llawer man lle na ellid cael darnau addas iddo.

"Pa le, pa fodd dechreuaf?" dyna fy mhenbleth.

Treuliais fin nosau lawer ym mherfeddion ei flwch gêr yn ceisio ffeindio pam y gwrthodai aros yn y gêr bacio. Ôl traul mawr oedd ar y cogwm hwnnw a gysylltai â'r siafft a byddai'n

rhaid cael un arall tebyg. Dyna ddechrau holi a stilio ond heb fawr o lwc - nes clywais am flychau gêr a geid yn rhyw iard yn Nottingham. Yn ôl John Ifor, roedd rhyw fêt wedi bod yr holl ffordd yn Worksop, ar gae lle roedd deg acer o hen gerbydau. Gallai un mecanic yn hawdd droi y car addas ar ei ochr, tynnu y blwch gêr allan a'i ffitio yn eich car ar drawiad. Deg punt a ofynnid am flwch gêr ail-law.

Felly y cefais un, mewn crat pren, yn Stesion Penygroes.

Gan mor dyllog oedd cefn y car, rhaid fyddai cael asio darnau o blat haearn i gau y rhannau diffygiol.

Pan ddeallodd Hywel, fy nghyfaill o asiwr, ag yntau yn fyr o gar i'w gludo am swae ar nos Sadwrn, addawodd roi rhyw awr fin nos, Nos Fercher, yn yr efail yn y dref ar ôl noswyllo. Byddai'r ymweliad wythnosol hon yn swae nos Sadwrn bach i'r dref.

Dal y gannwyll fyddwn i, a Hywel yn brysur yn cyfannu y tyllau a'u hasio yn y fflam. Darfyddai bob noson efo diferyn i wlychu pig cyn mynd adref.

Gan mai dysgwr di-brofiad oeddwn i, a Hywel yn yrrwr profiadol ceid esgus i ymestyn y profiad ar Nos Sadwrn, gyda chyfaill neu ddau arall. Ceid hwyliau garw ar y teithiau hyn gyda Hywel yn llawn bywyd a hwyliau da. Cofiaf un noson dymhestlog a ninnau ar daith i Lan Ffestiniog ar wahoddiad cyfaill neu ddau, fod Hyw wedi darparu am y tywydd a ddisgwylid. Gwisgai sgidia rwber a buan iawn y gwelwyd eu defnydd.

Ar y ffordd o Benygroes i Borthmadog, roedd pont mewn pant isel tudraw i Dyrpeg y Berth a dyfroedd yr afon yn codi'n bry-

sur yn y fath genllif. Ofnwn i na allawn fynd drwy'r lli' ond dyma Hyw allan i'r dwr a'm cyfeirio at ochr y bont. Felly y daethom drwy'r lli. Doedd braciau yr Ostin ddim mor ddibynol ag yw y rhai diweddaref heddiw ac yn fuan bu'n rhaid gwneud defnydd go arw ohonynt i'w sychu. Mi gafodd yr Ostin gryn brofi ar ei ffaeiddau y noson honno, gan iddi fwrw'n ddidor cyn dychwelyd.

Roedd un o ddrysau ôl y salwn wedi ei ystumio rhyw dro gan chwthwm o wynt ac ni ellid ei gau yn iawn. Roedd ei ffenestr yn gyfan a'r cogwm i'w ddirwyn yn gweithio'n burion. Cefais achlust fod gan Wil Sam, yn Llanstumdwy, hen gorpws Ostin Deg. Rôl galw yno a gweld Wil Sam, nodiodd ei ben tua'r ardd.

"Mae o allan yn fan'na. Helpwch eich hun."

O dan y coed afalau yn yr ardd, roedd ieir yn clwydo yn yr Ostin Deg ond roedd y drws ôl yn berffaith gyfan. Tynnwyd y drws oddiar ei golynnod a'i gario at y ty.

"Faint ydi o?" holwn.
"O!" medda W.S. "deudwch hannar coron" a dyna daro'r fargen.

Gwnaeth y drws fyd o welliant i'r Ostin Deg du.

Llawr oedd yr angen nesaf a chefais syniad am goed seithblyg i fod yn gryf a chadarn.

Yn iard Schofield ger Pont Saint roedd hen fwrdd N.A.A.F.I. ar ôl y rhyfel; roedd o'n rhy fawr at y gwaith imi ond llifiais ef yn ei hanner a'i brynu am saith a chwech (37 ceiniog a hanner).

Mi allwn wneud eithaf defnydd ohono.

Doedd hi ddim yn ofynnol i gerbyd basio unrhyw brawf, bryd hynny, ond gwyddwn na ellid mentro am brawf gyrru mewn siandri â'i llyw yn gryndod i gyd o flaen arholwr.

Bwriais iddi i drin y 'King pins' yn yr hen lyw a ffeindio fod y bwshis pres wedi gwisgo yn denau nes fod yr hen law yn cael cryndod ar gyflymder o 30 m.y.a. Pan holais mewn garais leol am y bwshis, yr ateb a gês oedd

"Dim ond digon at ein hiws ein hunain."

Rhaid oedd i mi felly ddyfeisio ffordd i oresgyn y broblem. Cofiais imi ddefnyddio pibellau pres mewn awyrennau ac y ceid y rheini mewn gwahanol faint.

Prynais hen 'unions' pres hanner modfedd yn iard Schofield a dyna lle bum i wedyn yn llifio, ffeilio ac addasu y rheini i ffitio'r 'King pins'. Wedi cael y rhain yn 'Push fit', sobrodd llyw yr hen Ostin a gallai lywio llinell union unwaith eto.

Anfonais draw i Sir Efrog am ddwy adain flaen iddo a'u ffitio fy hunan. Roedd wedi grymuso gryn dipyn erbyn hyn a chefais fenthyg 'spreiar', gan Bob, y Pobydd i roi côt o seliwlos du arnynt.

Er mwyn diddosi y salwn y tu mewn prynais lath neu ddwy o leinin brown a'u tacio yn ddeheuig i'w orffen. Daeth tiwb o 'Bostik' yn hwylus iawn i lynu 'Rexine' am banelau o gylch y drwsau a'r ffenestri. Gwnaeth y gweddill o'r coed seithblyg ddau lwyfan o boptu.

Dyna orffen yr Ostin Deg a gwneud trefn ar y set ôl, wedi tynnu cyrff un neu ddwy lygoden fawr, a wesgid yn y springs, wrth chwilio am friwsion bara.

Y trip cyntaf a wneuthum, gyda John Ifor yn gwarchod, oedd i gyfeiriad Llanwnda, gyda'r wraig a'i mam y tu ôl. Byr fu'r siwrnai, gan i'r olwyn ôl ddod i ffwrdd ar allt Brynrodyn. Llwyddwyd i gael y jac odano a'i godi nes cael newid olwyn sbar i'w lle. Roedd tyllau yr olwyn arall wedi gwisgo fel siap wy a rhyddhau y 'nuts' wrth blycio'n ôl a blaen.

Fy ngwrthod gefais ar y praw gyrru cyntaf. Rhyw glamp o Sais oedd yr arholwr, yn edrych ymlaen yn syth i'r sgrin wynt a rhyw giledrych ar fy arwyddion cyfeiriad drwy'r ffenest agored. Yn ôl ei adroddiad, roedd angen ychwaneg o bractis arnaf wrth arwyddo a threfnu troi i'r dde, ynghanol y lôn.

Dri mis yn ddiweddarach, cefais y prawf gan Dafydd Lloyd, Cymro o Sir Fon, a'm gorfododd i stopio ar frys ar ganol Gipsy Hill yn y dre a gwneud tro triphwynt tu cefn i Ysbyty'r Bwth. Mae'n amlwg ei fod wedi ei blesio ar y perfformans a ches fynd adref yn y siandri - Boy, O Boy! 85 heb yr L coch.

Pan werthwyd yr Ostin Deg ar ffair am Devon llwyd, roeddwn yn fy ngholled yn ariannol ond yn gyfoethog, oludog o brofiad.

Clywais iddo gael ei brynu gan ffermwr, at ei iws ei hun, fel tractor ar y tir.

Pilrwr

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

YN EISIAU - erbyn diwedd Ionawr 1989, Gohebydd Llanrug. Cysyllter â'r Golygyddion.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Mewn cyfarfod o'r Gymdeithas nos Fawrth, 1af o Dachwedd, y siaradwraig oedd Miss Matt Pritchard, Caernarfon. Llywydd y noson oedd y Parch Erfyl Blainey, a thalwyd diolch i Miss Pritchard gan Miss Megan Humphreys.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas, nos Fawrth y 15fed. Croesawodd y Llywydd, Mr Emrys Owen, wraig wadd y noson, sef Mrs M G Williams, Bethel i roi sgwrs. Mwynhwyd ei chyfraniad yn fawr gyda'i hatgofion am fro ei mebyd. Talwyd diolch iddi gan Mrs M Lloyd Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 29ain yng nghwmni y Parchedig John Gwilym Jones, Bangor.

PRIODAS: Yn y Capel Mawr MC dydd Sadwrn, Tachwedd 5ed gyda'r Parchedigion Henry James, Caergybi; W O Roberts, Llanrug, a D Elwyn Edwards, Caernarfon yn gweinyddu, priodwyd Mr Brian Huw Jones, mab y diweddar Mr a Mrs T J Jones, 33 Stryd Marcus, Caernarfon a Grace Helena Parry, merch Mr a Mrs Alf Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon. Y morynion oedd Mandy a Sian Jones ac Emma V Parry. Y gwas oedd Mr Eifion Jones. Y macwy oedd Mark A Parry a'r ystlyswyr oedd Mr Gareth Parry a Mr Gwyn Williams. Roedd Dr Gwyn Lewis, Caernarfon wrth yr organ. Bydd y pâr ifanc yn cartrefu yn y Fali.

Y GYMDEITHS LENYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr nos Fercher, Tachwedd 9fed, gyda Mr Gwilym Rees Parry yn llywyddu. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd yn sôn am yr amser a dreuliodd yng nghwmni y diweddar Llwyd o'r Bryn. Paratowyd paned gan Mrs C Owen, Ty Fry a Mrs M Jones, Wern. Cafwyd y diolchiadau gan Mr J W Owen a Mr Oswald Davies.

APêL YMCHWIL Y GALON: Mae cardiau Nadolig Apêl Ymchwil y Galon ar werth gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 4385.

TRIP TRÛN I LUNDAIN: Sadwrn Ebrill 15, 1989

Pris: Oedolion a Phensynwyr: £18
Plant 6-16 oed: £12.

Enwau a Blaendal o £6 y pen i law erbyn Rhagfyr 9.

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ffoniwch Caernarfon 5733.

Yr elw at Apêl yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Hydref 29ain, yn Eglwys Llanddeiniolen, priodwyd Anwen Morris, merch Mr a Mrs David Morris, Lleifior, Llanrug â Glyn, mab Mr a Mrs Williams, Llanddeiniolen.

Gwasanaethwyd gan y Canon Richard Jones a'r Parch John Morris. Roedd y wledd briodas yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy gyda disgo gyda'r nos.



CAPEL MAWR - YR YSGOL SUL: Bydd gwasanaeth Nadolig gan blant yr Ysgol Sul fore Sul, Rhagfyr 18 am 10 o'r gloch. Cynhelir te parti yr Ysgol Sul brynhawn Llun, Rhagfyr 19 am 3.0 o'r gloch, ac mae Santa Clos wedi addo dod yno hefyd. Mae'r athrawon yn barod i dderbyn yn ddiolchgar unrhyw gyfraniad ariannol at y costau gan garedigion yr Ysgol Sul.

PLAID CYMRU: Bu'r noson tân gwyllt a choelcerth a drefnwyd ar Dachwedd 5 yn llwyddiant mawr. Daeth nicher dda o blant a'u rhieni a phentrefwyr yno a phawb yn canmol iddynt fwynhau eu hunain ac yn ddiolchgar am gael noson ddiogel hwyliog a di-ddamwain. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd y fenter ac a helpodd mewn unrhyw fodd.

Bydd cinio Nadolig y gangennos Sdwrn, Rhagfyr 10 yng ngwesty Seiont Manor - Llwyn Brain. A rowch eich enwau a'r tâl am eich cinio i Olwen Llewelyn neu Nan Humphreys erbyn Rhagfyr 6 os gwelwch yn dda.

Enillwyr y Clwb Cant am fis Tachwedd oedd: 1. Vera Williams, Awelon; 2. Gwenda Roberts, 4 Talybont.

MWY NAG AUR: Yn dilyn perfformiadau llwyddiannus yn Mangor, bydd Côr Plant Ysgolion Sul Arfon o dan arweiniad Mr Robin Jones, Bethel, yn perfformio'r Ddrama Gerdd eto yn



Tim Nofio Ysgol Gynradd Llanrug a fu'n llwyddiannus yng Ngala Nofio Sir yr Urdd ym Mangor yn ddiweddar. Cafwyd nifer o wobrau, a bydd saith o'r genethod yn cystadlu yn y Profion Terfynol yng Nglyn Ebwy ar 26ain o Dachwedd. Y saith yw Jacqueline Gibbins (dwy ras unigol dan 10 oed), Rhian Green (ras gyfnewid a pili pala); Luned Jones (ras gyfnewid a cefn), Catrin Jones, Sara Thomas, Siwan Humphreys a Cerys Parry (rasus cyfnewid).

Harlech a Bethesda.

Mae Ffion Lloyd Williams, Nia Gwawr Jones, Nia Griffith a Wendi Thomas yn cynrychioli Capel Mawr yn y côr.

YN YR YSBYTY: Mae Mrs Beti Jones, 11 Hafan Elan a Mr Gordon Lewis, Fron Helyg yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r ddau ohonynt.

GWASANAETH Y CADODIAD: Cynhaliwyd gwasanaeth yn y Neuadd Goffa fore Sul, Tachwedd 13eg. Gwasanaethwyd gan y Parch John Morris a'r Canon Arridge ynghyd â Seindorf Arian Llanrug.

DIOLCH: Dymuna Carolyn Williams, 2 Talybont, ddiolch yn fawr iawn i'w ffrindiau, cymdogion a'i theulu am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DYMUNA Mr Ifor Williams, 25 Hafan Elan, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd diffuant a gafodd tra yn Ysbyty Gwynedd a hefyd ar ôl dod adref. Diolch am ymweliadau, anrhegion a chardiau niferus. Diolch i Staff Ward Moelwyn am eu gofal, hefyd i Dr Williams a Dr Roberts am eu gofal hwythau. Diolch hefyd i'r gweinigogion am eu hymweliadau a'u geiriau caredig.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Mary Lloyd Williams, Llys Awen ar ddathlu ei phen-blwydd yn 86 oed.

GWELLHAD: Rydym yn dymuno gwellhad buan i Mr Selwyn

Pritchard, Golygfa a hefyd i Mr Ifor Williams, 25 Stad Hafan Elan sydd wedi dod adref o Ysbyty Gwynedd erbyn hyn.

CLWB IEUENCTID LLANRUG: Mae'r clwb unwaith eto yn cael tymor prysur iawn gyda llawer o weithgareddau i'r aelodau. Cawsom dripliau llwyddiannus i'r Ganolfn Hamdden yng Nghaernarfon mis Hydref ac eto ym mis Tachwedd - aeth rhai i chwarae sboncen, rhai eraill i godi pwysau a'r gweddill i nofio. Hefyd, daeth P C Thomas o Lanrug i roi sgwrs ddiddorol ar ddiogelwch y ffyrdd i ni ym mis Hydref, ac edrychwn ymlaen i'w weld unwaith



Brysiwch!

Archebwch eich

**TWRCI
NADOLIG**

a'ch

CYW IÂR

a PHOB MATH
O GIGOEDD
ERAILL

YN AWR
gan

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Mynnwch y gorau
a dewch atom ni!

CABS LLANRUG



C'FON 5951

**Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos**

eto yn y clwb yn y flwyddyn newydd.

Ar hyn o bryd, mae cystadlaethau rhwng clybiau eraill yn cymryd lle ac mae tri thim pêldroed 5 bob ochr wedi llwyddo yn y rownd gyntaf.

Ar nos lau o hyn tan ddechrau Chwefror bydd hyfforddwr yn dod i gynnal cwrs byr mewn Hunan Amddiffyn.

Rydym yn gobeithio trefnu trip i'r Octagon ym Mangor lle bydd Disgo Nadolig i glybiau Arfon ac Ogwen ar y 13eg o Ragfyr. Mae'r clwb yn cyfarfod bod nos Lun a nos lau yn Ysgol Brynrefail rhwng 7 a 9 o'r gloch ac mae croeso i aelodau newydd neu ymwelwyr.

MARWOLAETH: Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Nesta Pritchard, Rhyl (Glanfa gynt), a hunodd yn dawel yn Ysbyty Llanelwy ar y 14eg o Dachwedd.

Bu yn aelod ffyddlon a gwerthfawr yn Eglwys Pontrhythallt am flynyddoedd lawer, lle y rhoddodd wasanaeth clodwiw ym mhob rhan o waith yr Eglwys, yn arbennig fel athrawes Ysgol Sul i genedlaethau o blant, gan eu paratoi ar gyfer yr Arholiadqu.

Roedd yn gymeradwy iawn yn yr ardal, ac yn barod ei chymwynas i gynorthwyo rhai llai ffodus na hi ei hun. Ymddiddorai mewn canu, meddai ar lais swynol a rhoddodd o'i thalent mewn gwahanol gyfarfodydd cymdeithasol.

Bu ei harwyl ddydd Sadwrn, gyda gwasanaeth yng nghapel Pontrhythallt a'r Parchedigion D Rees Roberts, ei gweinidog yn y Rhyl, D Hughes Jones, W O Roberts a John Morris yn gwasanaethu. Mrs Megan Roberts oedd yn cyfeilio.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r ddwy ferch, Gwyneth a Menai, y meibion yng nghyfraith, Derek a Clwyd, a'i dwy wyres, Paula a Nia.

CASGLU AT ACHOS DA: Nos Calan Gaeaf aeth Carwyn ac Owain Lloyd; Dylan a Iona Williams; Llion Pritchard; Elin Owen; Alan, Elen a Mark Davies a Gareth a Iolo Roberts i gyd o Stâd Bryn Moelyn o amgylch wedi gwisgo fel gwrachod yn casglu arian at achos da. Casglwyd £6 tuag at Gronfa Llid yr Ymenydd.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau hyn fod ar gael yn eich siop lyfrau lleol neu eich lyfrgell.

Llyfrau Newydd Cymraeg
Addas Brenda Wyn Jones a Jini Owen o waith Christopher Awdry
Tomos a'r Disl Du
Tomos a'r Goeden Nadolig
Cyhoeddiadau Mei £1.75 yr un.
Mwy o anturiaethau Tomos y Tanc a'i ffrindiau ym myd y trenau (Cyfres Tomos y Tanc).

Bwthyn Lisi Meri
Gwenno Hywyn
Gwasg Gwynedd £2.50
Yr ail yn y gyfres 'Baeheli'.

Sioned
Honno £4.50
Argraffiad newydd o glasu'r Winnie Parry (Clasuron Honno).

MERCHED Y WAWR: Gwraig wadd ein cyfarfod ym mis Tachwedd oedd Miss Eirian Pritchard o Gaernarfon. Cawsom noson ddifyr iawn yn ei chwmmi yn dangos llu o wahanol addurniadau Nadolig. Daeth tair o enethod o'r Bontnewydd gyda hi - Lyndsey, Manon ac Elin. Diolchwyd iddynt gan Phyllis Elis.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Ann Evans a llongyfarchodd dair o'n haelodau. Yn ddiweddar dathlodd Mrs G M Jones ei phriodas Aur, Mrs M Parry ei phriodas Arian a chyhoeddodd Miss Ann Humphreys ei dyweddiad â Dafydd Roberts, Llithfaen.

Paratowyd paned gan Joyce, Margaret, Gwenda ac Ann Lloyd. Joyce hefyd enillodd y raffl. Diolchwyd iddynt gan Heulwen Evans.

Byddwn yn "Dathlu'r Nadolig" ar Ragfyr 13eg yng nghwmmi Jini Owen ac Ann Hopcyn. Noson Bys a Bawd fydd hon gyda'r danteithion wedi eu paratoi gan aelodau'r gangen.

LONGYFARCHIADAU a phob bendith i Mary a Meurig Parry, Bryn Golau, Stâd Minffordd ar achlysur eu priodas Arian ar Hydref 5ed. Dymuniadau gorau oddi wrth Dwynwen a Steven, Tudur a Gareth a'r teulu oll.

Awen R.E.
R E Jones
Gwasg Gwynedd £3.50
Casgliad cyflawn o englynion un o bencampwyr y mesur.

Cari Wyn
cyfieithiad Gwenno Hywyn o waith Jacqueline Wilson
Gwasg Gwynedd £3.00
Nofel am ferch fydd yn 'dditectif mwy'r ganrif'
(Cyfres yr Arddogau)

Curiad y Galon
Cyhoeddiadau Mei £1.20
Y nofel ddiweddaraf yng Nghyfres y Fodrowy gan Elinor Tomos.

Blodau'r Gors
gan Islwyn Williams a Twm Elias
Gwasg Dwyfor £3.75
Lluniau lliw a disgrifiad llawn o ugain o flodau a welir mewn corsydd.

Addas Nia Ceidiog o waith Diane Wilmer.

Y Barbaciw
Y Goelcerth
Oen ar Goll
Tân Gwyllt
Hughes £1.99 yr un.
Anturiaethau Sam Tân mewn print! (Llyfrau Sam Tân).

Talwrn y Beirdd 4
gol. Gerallt Lloyd Owen
Gwasg Gwynedd £4.00
Y ddiweddaraf yn y gyfres boblogaidd

Cai Jones
J Selwyn Lloyd a Gerallt Lloyd Owen
Gwasg Gwynedd £4.50
Gwledd o bêl-droed. Lluniau-
stribed a storïau pêl-droed,
cartwnau a phosau.

Cadw Cyfrifon a'u Dehongli
G.B. Owen
Gwasg Gwynedd £3.50
Llyfr handi ar sut i roi trefn ar eich cyfrifon a rhai pobl eraill.

Addas Emily Huws o stori Val Biro
Iorwerth a'r Deinosôr
Gwasg y Dref Wen
(C.B.A.C.) £3.95
Stori i blant am ymweliad â byd y deinosoriaid.

Ac Ystrydebau Eraill
gan Chris Dafis
Y Lolfa £1.95
Y diweddaraf mewn cyfres o lyfrau barddoniaeth gan feirdd ifainc. (Cyfres y Beirdd Answyddogol)

Geirfa Gwaith Cymdeithasol: A Social Work Vocabulary
Gwasg Prifysgol Cymru £3.95
Llyfryn yn rhestru geiriau Cymraeg a Saesneg a ddefnyddir yn gyson gan weithwyr cymdeithasol.

Deuddeg Diwygiwr
Protestannaidd
gol. D. Ben Rees
Cyhoeddiadau Modern Cymreig
Cyf £16.75
Ysgrifau gan ddeuddeg o ysgolheigion ar y deuddeg diwygiwr Protestannaidd.


Addas Tegwyn Jones o lyfr Shirley Hughes
Llyfr Mawr Alffi a Lili Mei
Cymdithas Lyfrau Ceredigion Cyf £3.95
Llyfr mawr yn llawn o anturiaethau Alffi a'i chwaer fach, Lili Mei.

Bysedd Prysor
gan Bethan Lloyd Jones
Gwasg Carreg Gwalch £3.50
Llyfr i ddysgu myfyrwyr sut i drin teipiadur neu gyfrifiadur cartref.

Wichiaid Môn a Chosyn Mwy Cymru
gan Mair Wynn Hughes
Gwasg y Dref Wen (C.B.A.C.) £3.15
Antur ddiweddaraf y teulu o lygod o Fôn.

Stiniog
Ernest Jones
Gwasg Gwynedd £4.50
Pob agwedd ar Hanes Stiniog mewn penodau byrion, difyr.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

HOME IMPROVEMENT CENTRE FFORDD YR ORSAF, LLANRUG Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer

Paent, Papur wal, Offer plymio, Anhenion Ty,
Anghenion Arddurno, Coed, Garddio, Hadau Unwin,
Tywod, Gro, Brics, Blociau, Nwyddau Ironmonger,
a Sment, Teganau




**BARGEINION TEGANAU
AR GYFER Y NADOLIG
Brysiwch i'w gweld!**

O 'STEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



Criw hwyliog a me.....drus Parti Bechgyn Gwyrfai.



Rhai o enillwyr cystadluethau unigol dan 15 oed.



Rhai o enillwyr cystadluethau unigol dros 15 oed.



Genethod Parti Cyd-adrodd Gwyrfai.



Grwp Gwyrfai – enillwyr ar y gân ysgafn fodern.



Dylan a Sioned – sgets fuddugol ty Eryri.



Ffion John a Tammy Jones – y ddwy a enillodd y mwyaf o farciau dros a dan 15 oed.



Capteniaid y ty buddugol, Elidir; Olwen Jones a Sioned Elis.

GWILYM H. WILLIAMS

**BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD**

BETHEL

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

Gwasanaeth NEWYDD yn yr ardal!

EMYR LL. PARRY

**M.S.S.CH.
M.B.CH.A.**

**CHIROPODIST
GWASANAETH
CARTREF**

57 Glanffynnon
LLANRUG
FFÔN (0286) 5754
(Gyda'r nos)

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

Am wledd flasus dewch at Gwyndaf a Ceris Williams

**SIOP
SGLODION
BETHEL
CHIP SHOP**

Archebwch dros y ffôn!
Portdinorwig 670963
Cartref 670170

Mae John a Mary Leach



BECWS DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870232
yn diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod eu blwyddyn gyntaf mewn busnes yn y pentref ac yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
JAVED A SHAHEEN HAQ
A'R STAFF
SWYDDFA'R POST CLWT Y BONT
Ffôn 870325



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

SLING

Golygfeydd i Deledu a Ffilm



Tabernacl
Ffordd Deiniol
DEINIOLEN



Ffôn: Llanberis 872044

Y BRODYR THOMAS

Gwydrwyr

YR HEN SINEMA
STRYD FAWR
DEINIOLEN



Ffôn: Llanberis 870680

Cedwir, torrir, danfonir a gosodir pob math o wydr. Gwydro Dwbl, Drysau Patio a Ffenestri Aliwminiwm a P.V.C.

Ar Agor 8-5 Llun-Gwener. 8-12 Sadwrn.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

AR AGOR: LLUN – GWENER 8am - 10pm
SADWRN 9am - 10pm
SUL 10am - 10pm



LATE STOP

(D & A Supermarket)



STRYD NEWYDD
DEINIOLEN
Ffôn 870171



Diolch am bob cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

John Arwel a Jean Roberts

CABS DEINIOLEN

4 Ffordd Deiniol
DEINIOLEN
871591

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



DYMUNA CLARICE, DELYTH, JOHN a STAFF

Y TARW BULL INN DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i gwsmeriaid a chyfeillion oll



CYFARCHION Y TYMOR A'R DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD

oddi wrth
GWYN OLIVER JONES

Bar Super Arfonia

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870048



Ffôn: LLANBERIS 870856

ADEILADWYR A CHONTRACTWYR

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

DAVID, CAROL
A'R STAFF

WELLINGTON INN

Deiniolen

Ffôn: Llanberis 870227



Cwrw blasus – chwerw ar ei orau



NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA I BAWB oddi wrth
CLIFFORD, DIANA, NIA
RHIANNON AC EIRA

**Swyddfa'r
Post
DEINIOLEN**
Ffôn: LLANBERIS
870283




Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a
Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol

**OSMOND W.
SHAW DEINIOLEN**



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll

**GWASANAETHAU
TELEDU**
Ffôn: Llanberis 870545

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn

**ARFON
GARAGE**
DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?
YDI HI'N SAFF I SIÓN CORN DDOD
LAWR Y'CH SIMDDE CHI?!**

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau
FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth bawb yn



**CLOGWYN
CLIMBING**

DEINIOLEN Ffôn: 870551



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

**BERYL AC
OWIE**

HUGHES
Regent House
DEINIOLEN
Ffôn 870461

Diolch i bawb am eu
cefnogaeth yn ystod y
flwyddyn

Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth



**BRYMER, HILDA,
NICOLA A
LYNDSEY PARRY**
SIOP CIGYDD
BRISTOL
HOUSE
DEINIOLEN

Llanberis 870297
Diolch am eich cefnogaeth
drwy'r flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH

T. W. THOMAS



PENLAN, GALLTYFOEL,
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 872288

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH
YN YSTOD Y FLWYDDYN

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

**CABS
THOMAS
DEINIOLEN**

Gwasanaeth 24 awr
Ffôn: Llanberis 871049

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

CROESO: Bu i aelodau Ysgolion Sul Cefn-y-Waun, Disgwyfya ac Ebeneser roddi croeso brwd i'r Parch John Pritchard, ei wraig Mrs Falmai Pritchard a'r meibion Dafydd, Gethin a Gruffudd, drwy gynnal te parti yn Ffestri Ebeneser, brynhawn Sul, 6ed o Dachwedd. Mwynhawyd yr arlwy yn fawr gan bawb a oedd yn bresennol.

Dymuna'r trefnyddion ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud y te parti a'r achlysur yn llwyddiant.

CYNGOR EGLWYSI: Nos Lun, 14 Tachwedd, agorwyd trafodaeth yn Ffestri Cefn-y-Waun, gan y Parch Erfyl W Blainey, ar fywyd a chyfraniad arbennig y diweddar Barch John Wesley. Yn dilyn agoriad cryno Mr Blainey, Llywydd y Cyngor, y Parch Ifor Williams fu'n arwain y trafod. Troedigaeth Wesley, ei fywyd personol a'i gyfrannu di-bendraw i gymdeithas ar sail ei gariad angerddol oedd prif bwytiau'r trafod.

Am 5.30 pm nos Sul, 18fed Rhagfyr, cynhelir Gwasanaeth Christingle dan nawdd y Cyngor yn Eglwys Llandinorwig. Arweinir y Gwasanaeth gan y Parch Richard Jones, a chymerir rhan yn y Gwasanaeth gan ieuencid gwa-hanol Eglwysy'r pentref.

Estynnir croeso hefyd i bawb i'r Gwasanaeth Cymun fydd yn cael ei gynnal am ddeg o'r gloch, fore Nadolig yn Ffestri Disgwyfya. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar i'r Parch Erfyl Blainey am ymgymryd â gweinyddu'r cymun am eleni.

Ar y 18fed o Hydref, cynhaliwyd Cyfarfod o Ddiolchgarwch. Cymerwyd rhan gan y chwirydd canlynol, Mrs Betty W Davies, Mrs Alwen Jones, Mrs Jennie Williams, Mrs Eirlys Ll Jones, Mrs Brown, Mrs Megan P Morris, Mrs Jane Jones a Miss Eileen Williams. Y cyfeillydd oedd Mrs Betty W Davies. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd anerchiad amserol gan y Parch John Pritchard.

Cafwyd te ardderchog trwy garedigrwydd y W.I. yn ôl eu harfer bob blwyddyn, a diolch yn arbennig i Mrs Glenys Williams, Ty'n y Clwt am weinyddu wrth y byrddau. Rhoddwyd dwy raffl gan y W.I. yn ogystal, ac enillwyd hwynt gan Mrs Williams, Bwthyn a Miss Eileen Williams. Trosglwyddwyd yr elw a wnaethant yn ôl i'r Clwb a mawr yw ein diolch iddynt. Diolchwyd i'r W.I. ac i bawb arall a gymerodd ran gan Mrs Jane Jones.

PLAID CYMRU: Ffair Nadolig nos Wener, Rhagfyr 2il am 7 o'r gloch yn Ysgol Gwaun Gynfi. Mynediad: Oedolion 25c, plant 15c. Bydd Sion Corn yno. Anrhegion 50c.



PRIODAS: Miss Glenda Parry a Mr Michael Jones yng Nghapel Ebenezer ar y 15fed o Hydref.

DYMUNA Mr a Mrs M Jones, 34 Pentre Helen, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar eu priodas.

CYDYMDEIMLO: Hoffem gydymdeimlo â theulu Robert Gwilym a Vera Lewis ar ymadawiad ei fam, Rahel Lewis a fu farw yng Nghartref Plas Pengwaith, Llanberis ar y 15fed o Hydref.

DIOLCH: Dymuna Robert Gwilym a Vera ddiolch yn gynnes iawn i'r gweinidogion, y Parchedigion Dewi Morris, John Pritchard a Trefor Lewis am eu gwasanaeth, ac i Miss B Williams yr organyddes. Hefyd i'r teulu, cymdogion a ffrindiau, Metron a staff Pengwaith am eu gofal ddydd a nos, a diolch i'r meddygon teulu a'r staff nyrsio a fu mor garedig tuag ati yn ei gwaeledd. Diolch yn arbennig i Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau ac i bawb am y cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd. Diolch yn fawr i bawb.

MARW: Ar Fedi 25, yn dawel yn ei chartref, hunodd Kimberley Marie Phillipson, 8 mis oed, merch Carl ac Yvonne, 3 Caradog Place, Deiniolen. Bu'r gwasanaeth yn Eglwys Llandinorwig ar Fedi 29 gyda'r Canon Richard Jones yn gwasanaethu, yna ym mynwent Eglwys Santes Helen Penisarwaun.

DYMUNA Carl ac Yvonne ddiolch o galon am y caredigrwydd mawr a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli merch annwyl. Diolch i feddygon a staff ward y plant, Ysbyty Gwynedd. Aeth yr arian a gafwyd tuag at gael Vickers Pump i Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd.

CYMORTH CYNTAF: Dymunwn fel Adran o'r Cymorth Cyntaf yn Neiniolen a'r Cylch, trefnwyr, a chasglyddion teyrngar i'r mudiad uchod ddiolch i'r cyhoedd. Casglwyd y swm o £68.64

NEWYDDION Y SEINDORF: Chwched oedd safle'r Seindorf mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn yn Pontins ddiwedd Hydref. Yr oedd deunaw o fandiau yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Tachwedd: 1. £20 (28) Letti, Hafod Oleu; 2. £15 (186) M Jones, 50 Y Wern, Felinheli; 3. £10 (9) Dilwyn Jones, Macpela House.

Fe gynhelir Cyngerdd Nadolig yn Neuadd y Ganolfan, nos Sul 19fed o Ragfyr i ddechrau am 8 o'r gloch. Bydd mwy o fanylion yn rhifyn nesaf yr Eco.

APÊL LLEOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON: Yn ystod y misoedd diwethaf cynhaliwyd amrywiol weithgareddau i geisio cyrraedd y nod o £3000 a osodwyd i'r pentref at gronfa'r eisteddfod uchod.


Cafwyd cyngerdd safonol a hwyliog gyda Hogia Llandegai, Ifan Bryn Roberts a Jennifer E Jones; disgo Noson Ystwyll i'r plant a'r bobl ieuanc a chyngerdd gan ein Seindorf leuencid.

Manteisiwn ar y cyfle, fel pwyllgor, i ddiolch am bob cefnogaeth a gawsom gan y pentrefwyr a'r siopwyr lleol, ac am wasanaeth di-dâl y Seindorf leuencid, Ifan Bryn a Jennifer.


Yn awr, apeliwn am gymorth pellach. Mae angen syniadau newydd a nifer helaethach o'r pentrefwyr ar y pwyllgor er mwyn helpu i ysgwyddo'r baich. Bydd cyfarfod o'r pwyllgor yn Neuadd y Ganolfan, Ysgol Gwaun Gynfi am 7.30 nos Fawrth, Tachwedd 29ain. Croeso cynnes i bawb.

Dyddiad pwysig arall yw'r 31ain o Ragfyr, pryd y cynhelir Gwynnos yn Neuadd y Ganolfan, i ddechrau am 11.00 y nos. Edrychwn ymlaen at noson ddifur yng nghwmni John Ogwen a Maureen Rhys a'r Parch a Mrs Erfyl Blainey.

Dewch yn llu i adfywhau un o'n hen arferion traddodiadol.



Lewis.
URDD GOBAITH CYMRU: Yng Ngala Nofio Sir Eryri a gynhaliwyd ym mhwl nofio Bangor ddydd Llun, 7fed o Dachwedd, llwyddodd David Vaughan Thomas o Adran yr Urdd Ysgol Gwaun Gynfi i ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth Nofio Broga dan 12 oed i fechgyn. Daeth hefyd yn ail yn y gystadleuaeth Nofio Pili Pala. Llongyfarchwn o yn galonnog iawn gan hyderu y bydd ei lwyddiant yn mynd o nerth i nerth pan fydd yn mynd ymlaen i Glyn Ebwy i gystadlu yn genedlaethol ar Dachwedd 26ain. Bu i Bethan Griffith ac Arwel Wyn Jones ro cyfiri' da ohonynt eu hunain mewn cystadleuthau eraill hefyd.



David Vaughan Thomas



Bethan Griffith

Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o weithdy crefftau

CREFFT·ELIDIR



SIOP GWIL, STRYD AMAN

DEINIOLEN Ffôn: Llanberis 871210

Arddangosfa o hen luniau chwarel a dewis rhagorol o fideos i'w benthyg Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu

DEINIOLEN (PARHAD)

PWYLLGOR CARNIFAL:
Cynhaliwyd Pwyllgor Canifal Deiniolen a threfnwyd y gweithgareddau canlynol ar gyfer y Carnifal sydd i'w gynnal ar Orffennaf 1af, 1989.

Rhagfyr 16: Disco, gyda ymweliad gan Sion Corn, i blant Ysgol Gwaun Gynfi am 6 o'r gloch yn y Ganolfan. 50c yn cynnwys anrheg i'r plant.

Rhagfyr 23: Disco i rai dros 11 oed yn y Ganolfan am 7 o'r gloch. 50c.
Ionawr 2il: Bulls Eye i rai dros 14 oed. £2 y pâr. Cwpan a medalau i'w hennill.

Chwefror 24: Noson Goffi i ddewis Brenhines a chwrt Carnifal, 1989.

Os oes rhywun â diddordeb yn y Carnifal a'r gweithgareddau yma, cysylltwch â Hilda. Llanberis 870723 neu Rhian, Llanberis 872541.

SEFYDLIAD Y MERCHED:
Cynhaliwyd cyfarfod y Sefydliad yn y Ganolfan, Hydref 3 o dan arweiniad Mrs J Eirlys Williams. Darllenwyd y llythyr misol. Cawsom noson ddifyr yng nghwmni Mrs Dilys Kisalu o Lanberis. Diolchwyd iddi gan Miss Betty Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Diana Price a Mrs Beryl Griffiths. Enillwyd y raffl gan Mrs K Davies.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 7fed pryd y disgwylir Mrs Pat Jones, Brynrefail atom.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Dachwedd 7fed. Darllenwyd y llythyr misol gn Mrs J Eirlys Williams, y Llwydd, a chroesawyd y wraig wadd, Mrs Pat Jones, Brynrefail.

Cawsom noson ddifyr ganddi yn dangos sut i wneud pethau at y Nadolig. Rhoddwyd y te gan Mrs H J Thomas a Miss Nancy Roberts.

Cydymdeimlwyd â Mrs J Eirlys Williams Yn ei phrofedigaeth o goli ei chwaer.

Llongyfarchwyd Mrs Betty Williams am ennill y wobwr gyntaf yn yr Eisteddfod am wneud brodwaith a hefyd Nia Land a Delyth Price.

Enillwyd y raffl gan Mrs J Catherine Hughes a Mrs Edna Jones.

Bydd y Sefydliad y tro nesaf ar Ragfyr 5 pryd y disgwylir y V.C.O. atom i gael y Cyfarfod Blynyddol.

NOSON TÂN GWYLLT: Yn ôl yr arfer cynhaliodd Bwrdd Crwn Caernarfon gystadleuaeth Arlunio Plant gyda'r thema - Tachwedd 5ed - cystadleuaeth oedd yn agored i holl ysgolion cynradd y cylch. Llwyddodd Bethan Griffith, Safon 3 i gael y wobwr gyntaf o dan 11 oed. Cafodd Bethan £5 o wobwr a'r ysgol £25.00. Ymhyfrydwn yn ei lwyddiant.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI:
Barn llawer o'r rhai fu'n mwynhau'r tri eisteddiad o'r Steddfod a gynhaliwyd yng nghapel Ebeneser ar 28ain a 29ain o Hydref oedd bod hon yn rhagori ar y chwech arall

ENILLYDD MEDAL LENYDDOL EISTEDDFOD GWAUN GYNFI



Ffion Wyn Davies, Penrhosgarnedd, Bangor.

a'i blaenorodd, a bod y Steddfod yn mynd ymlaen o nerth i nerth. Roedd y beirniaid yn uchel eu clod am y safon trwyddi draw, gyda chanmoliaeth arbennig i fandwyr ifainc y pentref. Cafwyd blas a mwynhad pur yn sesiwn nos Wener wrth wrando cystadlu brwd rhwng pobl ieuainc o bob rhan o Wynedd. Fel arfer, sesiwn prawn Sadwrn oedd y mwyaf poblogaidd gyda phlant yr Ysgol Feithrin ac Ysgol Gwaun Gynfi yn rhoi gwefr gyda'u cystadlu naturiol a chyfeillgar.

Yr un oedd yr hanes nos Sadwrn hefyd, cystadleuwyr o bob rhan o'r Sir yn ymgiprys am y gwobrwyrn gyda'r cystadlu'n diweddu ar ben un o'r gloch fore Sul. Roedd urddas a newydd-deb yn y seremoniau llenyddol eleni, gydag aelodau Seindorf Ieuenticid Deiniolen yn cymryd rhan amlwg yn y gweithgareddau. Mewn ymdrech i roddi lle dyladwy i'r cystadlu yn Adrannau Celf a Chrefft roedd ffurf a gosodiad newydd i'r Arddangosfa oedd yn agored yn Ffestri'r capel tros ddeuddydd y Steddfod. Roedd y Steddfod yn goron ar flwyddyn o gydweithio tawel a hapus, ac mae'r Pwyllgor yn ddyledus am lawer cymwynas ddirgel a chyhoeddus.

Er hogi'r arfau ar gyfer Eisteddfod 1989 cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Eisteddfod yn Neuadd y Ganolfan am saith o'r gloch, nos Wener, 25 Tachwedd, ac estynnir croeso cynnes i baw sydd â diddordeb i droi i mewn i'r Cyfarfod.

Y Beirniaid oedd Mr Rhys Jones (Cerdd); Mr Aled Lloyd Davies (Adrodd a Llên) a dyma'r canlyniadau:

ADRODD

Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1. Rhian; 2. Lowri a Kelly; 3. Rhodri.
Dosbarth 2 a 3: 1. Louise; 2. Sion Ceri; 3. Jenny Lynn.
Safon 1 a 2: 1. Sian; 2. Sion; 3. Bethan ac Euros.
Safon 3 a 4: 1. Elaine; 2. Lyndsey; 3. Louise.

Parti Cyd-adrodd dan 12: 1. Parti Sam; 2. Parti Euron ac Eiriona.
Dan 15: 1. Einir; 2. Enlli; 3. Sioned.
Dan 19: 1. Ffion; 2. Rhian; 3. Jennifer ac Enlli.
Adrodd darn o'r Ysgrythur: 1.

Meira Turner, Waunfawr; 2. Roland Davies a Gwynfor.
Prif Adroddiad: 1. Meira Turner; 2. Eiriona Williams; 3. Roland Davies.

CERDD

Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1. Rhian; 2. Helen; 3. Tristan.
Dosbarth 2 a 3: 1. Alaw; 2. Jenny; 3. Sion ac Elfed.
Safon 1 a 2: 1. Mair; 2. Sion; 3. Richard.
Safon 3 a 4: 1. Lyndsey V Parry; 2. Elaine; 3. Sian Ellen Thomas.

Unawd Cerdd Dant dan 12: 1. Nia Land; 2. Lyndsey; 3. Alaw Mari.
Cân Werin dan 12: 1. Nia Land; 2. Lyndsey; 3. Alaw Mari.
Unawd Piano dan 12: 1. Martin; 2. Nia Land; 3. Siân Ellen Thomas.
Parti Canu dan 12: 1. Parti Richard.

Unawd dan 15: 1. Caryl; 2. Ceri; 3. Nia.
Cân Werin dan 19: Ceri Roberts; 2. Caryl, Caernarfon; 3. Delyth Price, Pentir.
Unawd Cerdd Dant dan 19: 1. Ffion; 2. Raymond a Ceri; 3. Caryl.
Deuawd dan 19: 1. Lyndsey a Ceri; 2. Gwawr a Nia; 3. Hefina a Delyth.
Unawd dan 19: 1. Raymond.

Grwp Offerynol (Agored): 1. Parti Dylan; 2. Parti Sian; 3. Parti Louise.
Unawd Piano dan 19: 1. Einir; 2. Rhian Medi; 3. Gwynedd.
Unawd Cerdd Dant (Agored): 1. Raymond.
Unawd Offerynol dan 12: 1. Martin; 2. Euros; 3. Louise.
Unawd dan 25: 1. Raymond.
Deuawd dros 19: 1. Alun ac Wmffra.

Canu Emyrn Dôn dros 50: 1. Katie Wyn, Llandwrog; 2. Gruff Ellis; 3. Ithel Parry.
Cân Werin dros 19: 1. Gruff Ellis, Ysbyty; 2. Alun Mabon, Waunfawr; 3. Wmffra ac R.D.
Unawd Offerynol (Agored): 1. Iwan Williams; 2. Dylan; 3. Gavyn Saynor.
Unawd Gymraeg (Agored): 1. Trefor; 2. Clarence; 3. John Eifion Jones.
Cyfansoddi Tôn: 1. Goronwy Jones, Porthmadog.

Cwpan am yr ymgals orau yn yr adran Adrodd dan 12 oed - Louise

Cwpan am yr ymgals orau yn yr adran Lenyddol dan 12 - Siân Ellen Thomas;

Cwpan yr adran Gerdd - Lyndsey V Parry;

Cwpan y Clwb Snwcer am y cynnyrch gorau yn y adran Gwaith Coed, Metel a Liechen - Mr Glyn Jones.

LLENYDDIAETH

Adran Feithrin a Dosbarth 1: 1. Lowri; 2. Kristy; 3. Mathew.
Dosbarth 2 a 3: 1. Alaw Mari Hughes; 2. Heather Burrows; 3. Christie Buthroyd.
Safon 1 a 2: 1. Bethan; 2. Ann Marie a Karen Jones; 3. Erin.
Safon 3 a 4: 1. Siân Ellen Thomas; 2. Lyndsey V Parry; 3. Tania Thomas.
Barddoniaeth dan 12: 1. Lyndsey; 2. Lyndsey a Caledffrwd; 3. Siân Ellen.

Rhyddiaith dan 15: 1. Sion Wyn a Dyfan Sion.
Barddoniaeth dan 15: 1. Dyfan Sion; 2. Sion Wyn Hughes.

Telegram (Agored): 1. Huw Jones, Deiniolen.

Medal Lenyddol dan 25: Ffion LI Davies, Penrhos, Bangor.

Stori Fer: John H Evans, Rhiwlas.

Englynion Coffa: 1. Alwyn Jones.

Baled: Ellen W Jones, Dinorwig.

Salm Follant: 1. Ellen W Jones, Dinorwig.

Asio Emyrn: Mrs Mari Williams, Bethel.

Traethawd: 1. Alfred Durne; 2. Ann Durne.

Telyneg: 1. Bob Parry, Cwm y glo.

Englyn: 1. Parch Glyndwr Richard, Caerdydd.

Limrig: 1. Mrs Mary W Jones.

Cystadleuaeth y Gadair: 1. Dafydd Guto Ifan, Caernarfon.

Llinell Goll: 1. Alice Griffith, Dinorwig.

ARLUNIO

Ysgol Feithrin: 1. Alwyn; 2. Michelle; 3. Ceirion.

Dosbarth Meithrin ac 1: Rhian; 2. Kellie Davies; 3. Ruth March.

Dosbarth 2 a 3: 1. Stuart Burton; 2. Ceri Olwen Hughes; 3. Zoe Anderson.

Safon 1 a 2: 1. Jephson Brett; 2. Alexander; 3. Shaun Charles Thomas.

Safon 3 a 4: 1. Tracy Young; 2. Tania Marie Thomas; 3. David Thomas.

Blwyddyn 1 a 2: 1. Barry John Thomas.

Dros 19: 1. Dafydd Wyn Jones, Rhydfadog.

GWAITH LLAW

Ysgol Feithrin: 1. Alwyn; 2. Rhodri; 3. Llion.

Dosbarth Meithrin: 1. Paul Crane; 2. Joanne Simkins; 3. Lyndsey Allen.

Dosbarth 2 a 3: 1. Alaw Mari Hughes; 2. Gethin Williams; 3. Julie A Jones.

Safon 1 a 2: 1. Richard; 2. Shaun Charles Thomas.

Safon 3 a 4: 1. Lyndsey Parry; 2. Elaine Williams; 3. Siân Ellen Thomas.

Blwyddyn 1 a 2: 1. Euros; 2. Huw Thomas; 3. Sian Griffith.

Blwyddyn 3 a 4: 1. Gwawr P Williams.

GWAU

Disgyblion Ysgol Gwaun Gynfi: 1. Alaw Mari; 2. Bethan Williams a Tania; 3. Ann Marie a Natasha.

Dan 15: 1. Sioned Evans; 2. Siân Griffith.

Dros 15: 1. Elen Williams; 2. Siân Hughes; 3. Elen W Williams a Nan Owen.

GWNIO

Digybilion Ysgol Gwaun Gynfi: 1. Lyndsey V Parry; 2. Bethan Williams a Maria; 3. Iona Parry ac

Alaw Mari. **Dan 15:** 1. Sian Griffith; 2. Gwawr P Williams. **Dros 15:** 1. Mrs E Griffith; 2. Cynthia Williams; 3. Elen Williams. **Brodwaith:** 1. Betty Williams; 2. Sarah Jones. **Croslo:** 1. Jane Jones; 2. Mrs E Griffith. **Tegan Meddal:** 1. Pat Hayers; 2. Nicola Hayers; 3. Ellen W Williams a Nicola Parry.

COGINIO

Dan 8: 1. Debbie Richer; 2. Jenny Lynn; 3. Gethin Williams. **Dan 12:** 1. Ceri Hunter; 2. Elena Williams; 3. Lyndsey V Parry. **Dan 19:** 1. Nicola Parry. **Dros 19: (6 Cacen Amrywiol):** 1. Elan Williams; 2. Gwen Griffith. **(Cacen ffrwythau):** 1. Valmai Williams; 2. Gwen Griffith; 3. Mrs Megan Morris, Dinorwig. **(Caws Lemwn):** 1. Gwen Griffith; 2. Alwyn Jones; 3. Sarah Jones a Valmai Williams.

Dynion un unig (Taffi Trilog): 1. Ifor Glyn Efans; 2. Alwyn Jones; 3. Brymer Parry.

HWAITH COED

Dros 19: 1. Glyn Jones; 2. Colin Hayers; 3. Kevin Jones.

FFOTOGRAFFI

Dan 12: 1. Alaw Mari Hughes; 2. Gethin Williams; 3. Nia Land. **Dan 19:** 1. Eilir Williams; 2. Dylan Williams. **Dros 19:** 1. Alwyn Williams; 2. Dilwyn Hughes; 3. Eifion Hughes.

TREFNIANT BLODAU

Dan 12: 1. Elaine Williams; 2. Siân Ellen Thomas. **Dan 19:** 1. Lyndsey Parry; 2. Siân Griffith; 3. Gwawr P Williams. **Dros 19:** 1. Gwen Griffith; 2. Alwyn Jones; 3. Sarah Jones.

MARWOLAETH: Ar yr 2ain o Hydref bu farw aelod o un o hen deuluoedd y pentref.

Roedd Mrs Nell Evans yn 74 mlwydd oed ac yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Chris Jones, Porth y Gogledd, ac yn chwaer i Katie Williams, Penrhos Bangor; Eirlys Williams, Pentre Helen ac Owen Jones, Talwrn, Llangefni a hefyd y ddiweddar Gwyneth a Dafydd.

Gadawodd y pentref pan yn ferch ifanc ac ar ôl priodi bu yn byw yn Bwlch Gwyn ger Wrecsam, lle y bu yn weithgar iawn gyda'r WRVS. Bu i'w gwr, Emlyn, farw ddeunaw mlynedd yn ôl. Treuliodd y pum mlynedd diwethaf o'i hoes yn Llangefni.



Llun o Ysgol Llandinorwig neu Ysgol y Gornedd fel y gelwid gan rai.

A oes rhywun yn gwybod pa bryd y tynnwyd y llun? Miss Price, Y Fron yw'r athrawes. Yn eistedd yn ail o'r chwith mae Robat Gwilym Lewis, perchenog y llun, gynt o Gallt-y-Foel, sydd yn awr yn byw ym Mangor. Pwy yw'r lleill tybed?

Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor, ar y 27ain o Hydref, a gwasgarwyd ei llwch yn Amlogfa Pentrebychan, gyda gweddillion ei gwr.

DIOLCH: Dymuna Katie, Eirlys a Now, gynt o Borth y Gogledd, Deiniolen, ddatgan eu diolch llwyr am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl, sef Nell Evans, Cynfi, Bwlch Gwyn, Wrecsam gynt, ac yn ddiweddar o Llangefni.

Y GWERINWR

Fe groesodd y Fenai ar gwch o Foeldon, A gwên ar ei wyneb, a'i galon yn llon; Dringodd y llwybr i'r barics a'r chwain, I'r llygod a'r lludw, a'r dyddiau'n go fain.

Naddodd y lechan mor gywain a sionc A dringodd y clogwyn fel ewig o'r bonc!

Llwythodd y slediad cyn paned naw Gyda chwys ar ei dalcen, a gwaed ar ei law.

Wedyn daeth rhyfel i newid ei fyd, A cholodd gyfeillion mewn trasiedi ddrudd, Dychwelodd i dyddyn yn ymyl y coed A magodd ei blant, nes daethant i oed.

Meithrinodd wybodaeth gyfrinach y tir, Dangosodd i'r ardal ei safiad yn glir; Newidiodd ei bleidlais o Lafur i'r 'Blaid' I gadw yr iaith, am mai hynny oedd raid!

Brawdgarwr i'r gweithiwr sy'n onest ei waith Mor ddygn ei degwch, a hynny sy'n ffaith, Hwn yw'r gwerinwr, mor gywir ei farn Gwladgarwr i'r eithaf, a Chymro i'r carn.

John V Morris, Rhianfa, Deiniolen



Dau frawd sydd wedi cael llawer o lwyddiant yn ddiweddar yn chwarae eu hofferynau chwyth yw Iwan ac Euros Williams. Buont yn llwyddiannus yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail, yn Eisteddfod Gwaun Gynfi ac yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

Cymdeithas Wyddonol Gwynedd

WYDDOCH chi y cewch well bargaen wrth brynu'ch petrol o garej mewn lle oer nag mewn lle cynnes?

Wyddoch chi y gallai trydan statig wneud y gwaith o lenwi'ch car â phetrol yn beryglus? Bod meicrobau bach drwg yn medru crynhoi dwr ar ffurf emylsiwn efo diesel, gan achosi trafferthion cychwyn i loriau a bysus ar foreau oer?

Ffeithiau diddorol, difyr fel hyn a gafwyd yn narlith mis Tachwedd o Gymdeithgas Wyddonol Gwynedd, "Technoleg Tanciau Olew" gan Simon R Moffett o Burfa Olew Texaco, Penfro. Cafwyd noson hwyliog, a'r wybodaeth wedi'i chyflwyno'n fyw efo sleidiau gan un sydd wedi dysgu Cymraeg ac wedi mynnu dod i Gymru i fyw a gweithio a magu ei deulu'n Gymry. Gwnaeth sylw pwysig pan siarsiodd wyddonwyr o Gymry ifanc i'w "gwerthu eu hunain" i gyflogwyr yng Nghymru. "Mae hysbysebu swyddi'n ddrudd," meddai, "a chwmnïau diwydiannol yn chwilio'n barhaus am ymgeiswyr da." Y ci a gerddo a gaiff, yn wir. Mae croeso bob amser i aelodau newydd i'r Gymdeithas. Bydd y cyfarfod nesf nos Fawrth, Rhagfyr 6ed am 7.30 pm yn Narlithfa'r Adran Amaethyddiaeth, Coleg y Brifysgol, Ffordd Deiniol, Bangor, pan ddaw Dr Hefin Jones, y Coleg Ymerodrol, Llundain, i siarad ar "Mistar ar Mistar Mostyn" (rheoli pla â dulliau naturiol).

BETWS GARMON

CROESO adref o'r ysbyty i Mrs Pearl Williams, Parc. **DIOLCH;** Dymuna Mrs Pearl Williams, Parc, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth **STIMVAK**

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI GWAIR

E. PUGH

WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 76772

TRIN GWALLT I BAWB O'R TEULU GAN JEN

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi



Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

EISTEDDFOD BENTREF: O fewn yr wythnos rydym yn gobeithio y bydd nifer fawr ohonoch yn ymuno yn y cystadlu iach ac yn cael digon o hwyl pan gynhelir yr Eisteddfod yn y Ganolfan ar nos Fawrth - Rhagfyr 6ed. Y Gobaith yw y cawn Eisteddfod i'w chofio fel a gafwyd y llynedd. Gwyddom bod nifer dda ohonoch wedi bod wrthi yn ystod yr wythnosau diwethaf yn paratoi ar gyfer cystadlu yn y gwahanol gystadlaethau. Fel y soniwyd yn yr Eco mis diwethaf bydd y noson yn dechrau yn brydlon am 6.30. Y pris mynediad yn 50c i oedolion a 20c i blant.

Y Llywydd eleni yw Mr Norman Closs Parry - gynt o Bron Ceris, Fachwen, ond sydd ers blynyddoedd yn byw yn Nhreffynnon, Clwyd. Mae ei fam yn dal i fyw yn y Fachwen ac mae yntau yn ymweld â'i gartref bob cyfle a gaiff. Edrychwn ymlaen at ei grae-saawu atom.

Un arall sydd â'i wreiddiau yn y pentref yw ein beirniad cerdd sef Mr Hefin Goronwy Jones o Lanrug - gynt o 5 Maes Eilian. Gwyddom o'r gorau am y gwaith campus y mae ef yn ei wneud gyda aelodau ifanc Seindorf Arian Deiniolen. Bydd y croeso yr un mor gynnes iddo ef. Bydd Miss Marina Roberts o Dy'r Ysgol yn gyfrifol am feirniadu Adran y Plant; Mrs Ann Dearn o Fron Deg - sydd, gyda llaw, yn prysur feistrol ei hiaith - yn gyfrifol am yr Adran Goginio; Mrs Rhian Thomas o Fangor yn beirniadu'r Adrodd tra bydd Mr Gareth Griffiths o Fryn Sardis - sydd wedi symud i'r pentref i fyw yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac a fu yn gefn mawr wrth drefnu Hwyl Haf - yn gyfrifol am feirniadu'r Adran Celf a Chrefft. Beirniad yr Adran Lenyddol yw Mr Gareth Wyn o Fangor.

Felly cofiwch ymuno â ni yn yr Eisteddfod. Bydd croeso mawr i bawb.

RHODD ARIANNOL: Hoffai pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am y rhodd ariannol o £50 tuag at gynnal yr Eisteddfod. Bydd yr arian yn ddefnyddiol iawn ar gyfer seilio sylfaen gref ar gyfer cynnal yr Eisteddfod am y blynyddoedd sydd i ddod.

TYMOR Y NADOLIG: Fel rheol mae'r adeg hon o'r flwyddyn, sef diwedd Tachwedd a dechrau Rhagfyr yn gyfnod dwl ianw. Oriau goleuni dydd yn byrhau nes deun unwaith yn rhagor i 'droad y rhôd' - hwnnw'n dod a gobaith am weld y dydd yn ymestyn unwaith yn rhagor. Hyd yn hyn eleni ymddengys fel pe bai'n eithriad i'r arfer, gydag wybren glir a chryn heulwen ar daen.

Dyma'r tymor y bydd plant ysgol yn cael eu partion Nadolig cyn bod yr ysgolion yn cau am seibiant hyd ar ôl dechrau'r flwyddyn 28

newydd. Mae'r partion yn gymheliad i hapusrwydd o gofio mai dathlu geni Ceidwad i'r byd a wneir, ac er i'r Nadolig cyntaf ddigwydd yn agos i ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, eto ni allwn anghofio mai dathlu newyddion da a fyddwn - newyddion sy'n trechu pob drygioni o du brenhinoedd anfoesol ac ymherodraethau llwgr.

Uwchben y cyfan, daw i'n clyw gân yr angylion, ac fe gofiwn am y bugeiliaid syfrdan yn 'gwylio eu praidd liw nos' ar feysydd Bethlehem dlos. Roedd gwyliadwraeth fanwl wrth gwrs yn hanfodol i ymlid ymaith yr anifeiliaid rheibus oedd a'u bryd i yslfio'r praidd.

Fe'n hatgofir ni hefyd am ymchwil dyfal y Doethion o'r Dwyrain tra'n dilyn y 'Seren' honno a'u harweiniodd at y preseb cul mewn stabl lom. Nid ym Mhalas Herod y canfuwyd y baban bach, ond yn llety'r anifail. Nid mewn ysblander palas y cafodd ein Gwaredwr le i roddi ei ben i lawr, ond yng nghwmni'r anifeiliaid, ac fe fu'n gyfaill i anifeiliaid ar hyd ei oes gymharol fer.

Yng 'nghyflawnder yr amser' y daeth i wireddu popeth a rag-ddyweddod y proffwydi amdano, ac o'r adeg honno ymlaen fe fu raid newid y Calendr a meddwl yn nhermau Cyn Crist ac Oed Crist. Faint bynnag oedd oedran y byd erbyn yr adeg honno, ac roedd cryn ddyfalu ynglyn â'r ffigur cywir - a phawb heb fod yn cytuno chwaith(!) fe sylweddolwyd bod rhaid ail ddechrau o'r newydd, a'n profiad ninnau yn yr ugeinfed ganrif hon yw 'bod rhyw newydd wyrth o'i angau drud yn dod o hyd i'r golwg'. Parhau i'w ddatguddio'i hun y mae'r Gwaredwr.

Y DIOLCHGARWCH A FU: Yr oeddem yn sôn yn ein nodiadau diwethaf am ein trefniadau i ddathlu'r Diolchgarwch yn addoldai ein hardal. Yr Wyl honno a drosglwyddwyd i ni o galendr Eglwysig yr Eglwys Hebraeg. Tra'n ceisio casglu'r cyfan o'r ffeithiau at eu gilydd fe anghofwyd cynnwys trefniadau capel Dinorwig (M.C.) Mr R Coetmor Williams, y cymwynaswr o Lanllechid, a ofalai am yr oedfa 2 o'r gloch yno, ac fe gymerwyd rhan mewn cwrdd gweddi am 5 o'r gloch gan chwirydd a brodyr o'r capel. Ni allwn adael i'r Wyl arbenig hon fyned heibio heb i ni wneud cyfeiriad at gyfraniad cyfoethog cyfeillion o chwarelwyr o Ynys Môn a arferai drigo yn hen farics y chwarel yn y dyddiau gynt. Arferent hwythau gartrefu yn y barics o fore Llun hyd nos Wener. Wrth gwrs fe arferem gynnal yr Wyl Ddiolchgarwch ar ddydd Llun. Roedd y doniau cyhoeddus yn llawer mwy niferus yr adeg honno nag yn awr - er dichon bod eu manteision addysg yn brinach. Serch hynny trwythasent eu

hunain yn y Beibl a'i gynnwys. Pobl yr un llyfr oeddynt i raddau helaeth, ond roeddent wedi trysori ar eu cof benodau o'r gyfrol sanctaidd, ac fe allent ddyfynu rhannau ohono i ateb y cwestiynau a'r problemau oedd yn codi yn eu meddyliau. Roedd y Beibl yn fwy iddynt, ac ni chaent gamdreuliad tra'n cyfranogi ohono, a'r Beibl a fu'n gyfrifol am gadernid eu cymeriadau.

COFIO: Parhawn i gofio am y colledion a gafwyd mewn dau ryfel byd ac mae amser y cofio yn digwydd disgyn ar adeg dywyll iawn o'r flwyddyn. Tra'n cofio'r aberth, cofiwn hefyd bod y melys a'r chwewerw yn aml yn cyd-reddeg â'i gilydd.

CROESAWU: Hyfrydwch i minnau'n bersonol yw'r ymdeimlad bod gennym gymdogion ieuanc yn byw yn Rhif 9, Maes Eilian.

HEN YSGOL BRYNREFAIL: Mae trigolion pentref Brynrefail erbyn hyn yn anfodlon ar gyflwr yr hen Ysgol Ganol yno, ac yn awyddus i chwilio i mewn i weld pa ddefnydd ymarferol ellir ei wneud ohoni, ac arafu'r dirywiad ar yr adeilad.

Ni allwn anghofio y cysylltir enwau o fri cenedlaethol â'r hen Ysgol. Nid oes ond angen enwi'r diwddar T. Rowland Hughes. Un arall o'r glewion a gyfranodd yn

helaeth i hyrwyddo gwaith yr ysgol oedd y Parch John Pritchard, Llanberis a fu'n ddiwyd yn casglu hanes yr ysgol at ei gilydd. Pwy allai anghofio'r athrawon a'r athrawesau ymroddgar - rhai fel Robert Morris a D R Griffiths a adawodd eu stamp ar genedlaethau o ysgolheigion? Mae'r enwau yn berarogl i'r rhai a'u hadnabu.

Y DYFODOL: Mynnw'n ninnau greu traddodiad newydd yn yr ardal ar sail yr hyn a aeth o'r blaen, a chofiwn bod cenhedlaeth ieuengach yn edrych tuag atom ni am esiampl ac arweiniad, a hynny pan welir rhywrai yn ceisio chwilfrwio safonau a fu'n gysegredig. 'Safwn yn y Bwlch' fel y dywaid Hogia'r Wyddfa. Pysgod marw wedi'r cyfan sy'n mynd i ganlyn y lli er mwyn y 'cwmwl tystion', ac er mwyn yr oes a ddêl ymegniwn yn yr ymdrech. Fe ymddiriedwyd heddiw i'n gofal ni. Mawrygwn ein baint!

**EISTEDDFOD BENTREF
DINORWIG
Nos Fawrth, Rhagfyr 6ed
Canolfan Gymdelthasol
am 6.30 p.m.
Creso cynnes i bawb**

O WASG CARREG GWALCH

Cymro ar y Copa a Storiâu Antur Eraill

gan Emrys Roberts
Casgliad o bymtheg o straeon cyffrous yn seiliedig ar hanesion gwir. Hanes Eric Jones yn trechu un o'r mynyddoedd caletaf yn yr Alpau a hanes helbul efo crocodeil yn Awstralia. Dianc o garcharau, anturiaethau gydag anifeiliaid gwylltion a ras geir ar draws y byd - digon o ddeunydd darllen diddorol a gafaelgar.
144 tud. 15 llun. Pris: £2.50

Storiâu Cornel y Cae

gan Alys Jones, Bethel
Chwech o straeon am anifeiliaid bach annwyl sy'n byw mewn cornel cae bychan. Yno, yn Stryd y Briallu, mae pob math o anturiaethau yn digwydd i Caradog

Cwningen, Dic Deryn Du, Margiad Llygoden, Deio'r Draenog a Tomos Twrch Daear.
48 tud. gyda 12 o luniau deuliw gan Jac Jones.
Pris £2.

Smotyn, y Mochyn Bach Busneslyd

gan Emrys Evans
Saith o straeon digri am helyntion mochyn bach a phlismon pentref Pen-y-ffordd. Pymtheg o gartwnau ardderchog gan Elwyn Ioan.
60 tud. Pris £2.40

AR WERTH: Cwt ci o wneuthuriad cadarn, addas i gi mawr, e.e. Labrador! Eithnog, Bethel. Pris £25.

**CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652**

PATRYMAU CYFNEWIDIOL YN Y GYMRU WLEDIG

Rhwng nawr a 2001, disgwylir i boblogaeth cefn gwlad Cymru gynyddu tair gwaith yn gynt na phoblogaeth Prydain yn gyffredinol - ond mae'n bosibl y bydd y nifer gymharol isel o bobl ifainc yn llesteirio twf economi'r ardal.

Dyma rai o brif gasgliadau gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig i batrymau cyfnewidiol ym mhoblogaeth yr ardaloedd gwledig ac i farn pobl cefn gwlad ar faterion yn ymwneud â'u bywydau - gan gynnwys mewn-fudo a thai.

Er gwaethaf y twf cyffredinol, gwelwyd, yn sgîl cynnal yr astudiaeth, bod y rhan fwyaf o bobl ifainc ar gyfartaledd yn allfudo a chasgliad yr adroddiad felly yw y bydd prinder difrifol o weithwyr ifainc yn y 1990au.

Mae'r Sefydliad wedi clustnodi dwysau ymdrechion i'w cadw, denu pobl ifainc yn ôl a hyd yn oed denu mewn-fudwyr ifainc yn hytrach na rhai hyn fel blaenoriaethau.

Fe all un o ddaganfyddiadau arolwg y Sefydliad o agweddau pobl cefn gwlad ddylanwadu'n fawr ar bolisiau'r dyfodol wrth geisio cyflawni'r amcanion hyn.

Er i ymchwilwyr y Sefydliad weld bod y rhan fwyaf o bobl sy'n debygol o adael cefn gwlad yn gwneud hynny am resymau yn ymwneud â gwaith, mae ffactorau eraill - gan gynnwys tai a rhesymau cymdeithasol - yn gymharol bwysicach i allfudwyr dan 25 oed.

Wrth wneud sylwadau ar ddaganfyddiadau'r astudiaeth, dywed y Sefydliad: 'Nid gwaith yw'r unig reswm y mae pobl ifainc yn rhagweld fydd yn peri iddynt adael. Fe all gwella safon tai a chyfleusterau cymdeithasol a hamdden, yn ogystal â sicrhau bywyd cymdeithasol mwy bywiog helpu i atal y llif.'

Adroddiad y Sefydliad, 'Newidiadau mewn Poblogaeth ac Agweddau Cyfredol', a gyhoeddwyd heddiw (Dydd Llun, Tachwedd 7) yw'r astudiaeth gynhwysfawr gyntaf erioed o ddemograffi'r Gymru wledig a

ffrwyth cam cyntaf rhaglen y Sefydliad ydyw ar gyfer pennu mesurau ymarferol i hybu lles cymunedau gwledig.

Gwelwyd yn sgîl cynnal yr ymchwiliad demograffig, er bod gostyngiad graddol ym mhoblogaeth gweddill Cymru, bod cynnydd cymharol gyflym ym mhoblogaeth cefn gwlad Cymru.

Ar hyn o bryd, gellid ystyried bod bron i un ym mhob saith o'r boblogaeth bresennol yn 'fewnfudwyr'.

Barn y mwyafrif o'r boblogaeth leol yw bod gormod o bobl yn symud yno i fyw. Ond yn rhyfedd iawn, dywedodd y mwyafrif o'r rheiny a holwyd eu bod yn falch o weld pobl newydd yn eu hardal gan eu bod yn helpu cadw'r ardal yn fyw.

Darganfyddiad arall yr astudiaeth ddemograffig yw y bydd galw mawr am dai hyd at ddiwedd y ganrif - yn enwedig am dai bychain.

Bydd angen help ar y bobl leol, yn enwedig y rheiny ar gyflogau bach, os ydynt i gystadlu yn y farchnad dai, meddai'r Sefydliad.

Cred ymchwilwyr y Sefydliad fodd bynnag, bod dimensiwn ychwanegol i broblemau lletya ardaloedd gwledig sy'n mynd ymhellach na phwnc llosg ail gartrefi - sef y cyfran uchel iawn o dai gweigion.

5.6 y cant o gyfanswm y stoc dai ar hyn o bryd sy'n dai haf. 7.4 y cant yw lefel y tai segur gwag.

Er na ddylid caniatâu i ail gartrefi dyfu'n gyfran rhy uchel o'r stoc dai, yn ôl y Sefydliad dylid ceisio dod o hyd i ddulliau o ddefnyddio mwy o adeiladau segur.

Dangosodd arolwg y Sefydliad ar agweddau pobl cefn gwlad bod peth cyfatebiaeth rhwng y gwahaniaethau barn ynglyn â materion economaidd a chefnidir

diwylliannol.

Roedd cymhellant Cymry Cymraeg i fynd yn hunan-gyflogedig yn llai. Hefyd y Cymry Cymraeg oedd un o garfannau'r boblogaeth a oedd mwya' o blaid creu swyddi 'ffatri' yn y Gymru wledig.

Roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau eraill yn y boblogaeth yn gweld datblygu ffatrioedd yn drefoli graddol a allai danseilio cymeriad a chyfleusterau'r ardal wledig.

O fewn y Gymru wledig yn gyfan, roedd ychydig dros hanner y boblogaeth (53 y cant) yn siarad Cymraeg a dim ond ychydig dros chwarter (28 y cant) yn siarad yr iaith yn rhugl ac yn ei defnyddio'r rhan fwyaf o'r amser yn ystod diwrnod cyffredin.

Ceir peth tystiolaeth fodd bynnag, bod cyfran yr ifainc sy'n medru'r Gymraeg yn cynyddu.

Mae cyfran uchel o fewnfudwyr

yn rhoi cynnig ar ddysgu'r iaith ond yn gweld hynny'n rhy anodd. Casgliad y Sefydliad yn hyn o beth yw y dylid sicrhau gwell adnoddau ar gyfer dysgu Cymraeg i fewnfudwyr.

Dywedodd y Cyng John Tudor, Cadeirydd Grwp Prosiect Astudiaeth Wledig y Sefydliad heddiw: "Mae yna lawer o gamdealltwriaethau ynglyn â'r Gymru wledig ac ni wnaed ymgais systematig erioed o'r blaen i geisio barn y trigolion.

"Rydym felly wedi ceisio cyflwyno'r sefyllfa fel ag y mae mewn perthynas â demograffi'r ardal a barn y boblogaeth ynglyn ag amodau byw.

"Mae hwn yn gam cyntaf angenrheidiol wrth geisio pennu'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau dyfodol gwell i gymunedau cefn gwlad Cymru."

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Bethan Parry, "Ael-y-Bryn"

GWELLHAD BUAN: Da deall bod Mr Robert Griffith, Llys Meredydd, wedi dychwelyd adref ar ôl ysbaid yn Ysbyty Gwynedd. Dymuna pawb yn Nhan y Coed wellhad buan iddo.

LLONGYFARCHIADAU: Mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan yr Urdd i Ysgolion Arfon daeth Gwennan Mair Humphreys, Pant

Bryngwyn, yn ail am nofio ar ei chefn yn y gystadleuaeth i blant dan 10 oed. Yn y ras gyfnewid daeth ei chwaer, Siwan Eurgain Humphreys yn gyntaf ac o ganlyniad bydd y tîm hwn yn cynrychioli'r Sir yn y Genedlaethol yng Nglyn Ebwy ar Dachwedd 26ain.

NANT PERIS

DIOLCH: Dymuna Sian Elen Pritchard, Ty Capel, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymodgion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

LLONGYFARCHIADAU i Sian Elen, Ty Capel ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

GAIR GAN Y GOLYGYDD: Rydym yn dal heb neb i gasglu newyddion Nant Peris. Derbyniwyd yr uchod trwy law Mrs Iola Sellers, gohebydd Llanberis. Nid yw'n deg disgwyl iddi ofalu am newyddion Nant Peris yn ogystal â Llanberis ond mae yn fodlon

trosglwyddo pytau o newyddion i'r golygydd - DROS DRO YN UNIG - hyd nes y cawn wirfoddolwr o Nant Peris. Ond bydd yn ofynnol i bobl Nant Peris gysylltu â hi. Rhif ei ffôn yw Llanberis 871043.

AR WERTH

Ceffyl Sindy, fel newydd yn ei locs: £10.
Gweithgaredd Swyddfa, mewn cās deniadol, fel newydd: £10.
Organ fechan mewn bocs - addas ar gyfer dysgwyr ifanc: £12.
Y cyfan yn addas iawn fel anrhegion Nadolig.
Ffôn: Caernarfon 3929 (ar ôl 4 o'r gloch).

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisiau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

Gwasanaeth NEWYDD
ar garreg eich drws

SEGONTIUM
CAR · VAN HIRE

Cerbydau Pickup, Luton, Cargo a Bysus Mini
Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir
UNED 5, STAD CIBYN
CAERNARFON Ffôn: 2013

Beth am ddysgu
dreifio gydag

YSGOL YRRU
BETHEL

Cysylltwch â
Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

DIOLCH: Ar ran darllenwyr yr Eco fe garwn ddiolch i Mrs Glenys Jones, Rhandir Mwyn am ei gwaith caled fel gohebydd yr Eco yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf.

LLONGYFARCHIADAU i Sioned a John Glyn, Garmon, Stad Ty Hen ar enedigaeth mab bach, Arawn, brawd i Rhion;

i Geoff a Liz Daniels, 8 Stad Ty Hen, ar enedigaeth mab, Iwan Wyn;

i Llinos a John Cadwaladr, 3 Stad Glyn Afon ar enedigaeth mab, Alun, brawd i Bethan a Gareth; i Fiona a Roy, Bod Idris, ar enedigaeth merch fach;

i'r grwp 'Bron â Methu' am berfformio mor dda mewn cyngerdd ym Mhenygroes yn ddiweddar; i ddisgyblion Ysgol Syr Hugh Owen, fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Ysgol;

i Mr Geroge Taylor, Dol Erddi ar ei ben-blwydd yn 90oed. Anfonwn ein cofion at Mrs Taylor hefyd,.

LLONGYFARCHIADAU YN 90 OED

Mae heddiw'n ail o Dachwedd, Rhaid canu yn ddi-oed I un sydd wedi cyrraedd Pen-blwydd yn naw deg oed.

Os nad oes cân yr adar l'w clywed yn y coed, Bendithion fyrrd fo ichwi Ar gyrraedd naw deg oed.

Gwr diddan a charedig Ac ysgafn iawn ei droed, Ni choelrai neb yn unman Ei fod yn naw deg oed.

Y dydd fo'n llawn hapusrwydd, Y gorau fu erioed, Y clychau fyddo'n canu I chwi yn naw deg oed.

gan Mrs Annie Williams (gwraig y diweddar Tom Williams, y Garreg Fawr)

DIOLCH: Dymuna Mr Taylor ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a'r arhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd.

DIOLCH: Dymuna Peter a Janet Greasley ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arhegion a'r dymniadau da a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Beth.

DIOLCH: Dymuna Mrs Pearl Williams, Parc, ddiolch i bawb am y cardiau, arhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref.

LLONGYFARCHIADAU i Gwyn Thomas, Treforfan ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed.

LLONGYFARCHIADAU i Helen Hughes, Tref Eilian ar gael ei dewis yn Brif Ddisgybl Ysgol Syr Hugh Owen.

DYMUNIADAU GORAU i Dylan Parry (Traed Wadin) a fagwyd yn y Waun ar fentro i'r byd 'canu

gwlad' ar ei ben ei hun; i John Owen Huws, Argoed, fydd yn dechrau ar ei swydd gyda'r BBC ar Ragfyr 1af.

YN YR YSBYTY: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen ac i Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian.

ADREF O'R YSBYTY: Croesawn gartref o'r ysbyty Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion; Mrs Nan Roberts, Pant Afon a Mrs Llywela Davis, Tref Eilian. Gobeithio fod Kristy Jones, Cynefin yn gwella ar ôl torri ei choes.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Sulwen Lewis, Bryn Golau ar golli ei mam. **CROESO** cynnes i Mrs Edwards, mam Mrs Ann Elfryn i'r Waun. Mae wedi ymgartrefu yn 'Dychwelfa'.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Jones, Tan y Waun, ar ddathlu eu Priodas Ruddem.

DYMUNIADAU GORAU i Miss Nancy Griffith, Tan 'Rallt ar ei hymddeoliad o'i gwaith yn y Weinyddiaeth Amaeth.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliodd cangen Waunfawr eu Cyfarfod Blynyddol nos lau, 3ydd o Dachwedd.

Croesawyd Mrs Pat Jones a Mrs Crocombe, Trefnyddion Gwirfoddol y Sir i'r cyfarfod gan Mrs Pat Parry, y Llywydd. Rhoddodd groeso cynnes yn ôl i Mrs Katie Wynn Jones a Mrs Southworth hefyd.

Mrs Elen Jones oedd cynrychiolydd y Gangen yng Nghyfarfod yr Hydref a gynhaliwyd yng Ngholeg Technegol Bangor ar Hydref 13eg a chafwyd adroddiad o weithgareddau'r cyfarfod ganddi.

Yn ystod y cyfarfod etholwyd y swyddogion canlynol i weithredu am y flwyddyn nesaf:

Llywydd: Mrs Pat Parry; Is-Lywydd: Mrs Katie Wynn Jones; Ysgrifenyddes: Mrs Peggy Jones; Trysorydd: Mrs Catherine A Jones.

Rhodd gan Mrs Elen Jones oedd y raffl a enillwyd gan Mrs Duncan. Cynhelir y cyfarfod nesaf

ar 1af o Ragfyr.

Cynhaliwyd Gyrfu Chwist llwyddiannus yn y Ganolfan Waunfawr nos Wener, Rhagfyr 11eg o dan nawdd Sefydliad y Merched. Mr O T Jones oedd yr MC am y noson.

Cyfrif hanner amser oedd: Merched: Mrs Annie Thomas; Dynion: Mr John Nathaniel Owen.

Enillydd y noson oedd: Merched: 1. Mrs A Thomas; 2. Mrs J K Roberts; 3. Mrs Duncan. **Booby:** Mrs Arianwen Thomas.

Dynion: 1. Mr John Nathaniel Owen; 2. Mr Owen Tecwyn Roberts; 3. Mr Eilian Williams.

Booby: Mr Eurian Jones. Enillwyd y raffls gan Mr Selwyn Griffith, Llanrug; Mr Edgar Owen, Waunfawr; Mrs Glenys Williams, Betws Garmon.

Diolchwyd i bawb oedd yn bresennol am eu cyfraniad i noson lwyddiannus ac yn arbennig i Mr O T Jones am ei wasanaeth gan Lywydd Sefydliad y Merched, Mrs Pat Parry.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD 1990: Cynhelir Gyrfu Chwist o dan ofal Mr O T Jones yn y Ganolfan nos Wener, Rhagfyr 16eg am 7.30 o'r gloch. Mynediad £1.00 yn cynnwys paned alluniaeth ysgafn. Llawer o wobrau a raffl.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Merched y Wawr yn y Ganolfan, nos lau, Hydref 27ain. Cafwyd noson ddiffr iawn, pryd yr oedd Mrs Rose Ann Hughes, Tref Eilian yn dangos sut i goginio amryw gacenau.

Diolchwyd i Mrs Hughes gan Mrs Gillian Wyn. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Mary B Davies, a'r enillydd oedd Mrs K Hughes.

Roedd yr aelodau yn falch o glywed fod Mrs Katie Wynn Jones adref o'r ysbyty a dymunwyd aferiad buan iddi. Bydd y cinio Nadolig yn Tan Ronnen, Beddgelert, nos lau, Tachwedd 24ain a bydd y bws yn gadael y Llythyrdy am 7.15 o'r gloch.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd cychwyn da i dymor arall o'r Gymdeithas Lenyddol nos Lun, Hydref 31 yn y Ganolfan pan y daeth dros drigain i wrando ar ddarlith hwyliog gan y Parch Emllyn Richard, Cemaes, Môn, ar 'Hen Borthmyn Môn'. Roedd y neuadd yn llawn yn gwrandao ar

ddarlith sydd i'w chyhoeddi'n llyfr yn y man. Llywyddwyd gan Mrs Mary Vaughan Jones a thalwyd y diolchiadau gan Mr John O Huws. Mae rhaglen ddiffr wedi ei threfnu am y tymor gan gynnwys dwy ddarlith yn y flwyddyn newydd gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones ar 'Enwau Lleoedd' yn yr ardal, a hanes Bryncroes yn Llyn gan Mr Hywel Parry, y Groeslon. Rhwng y cyfarfodydd hyn ceir nosweithiau gan yr aelodau eu hunain a dyna beth a geir yn y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Tachwedd 21 pan y gwahoddir aelodau i ddod ac unrhyw eiddo sydd a stori neu hanesyn diffr ynghlwm ag o. Llywydd y noson hon fydd Mr Deiniol Hughes. Nos Lun, Rhagfyr 12 ceir cyfle i holi Mair Williams, Nyrs y Gymuned ac Eifion Glyn, aelod o dîm 'Y Byd ar Bedwar' am ei ddyletswyddau dyddiol. Ni chaniateir i neb ymaelodi ar ôl cyfarfod mis Rhagfyr.

CLWB BOWLIO: Cafwyd noson 'Bingo' lwyddiannus iawn ar Hydref 28ain. Dymuna'r aelodau ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Maent yn ddiolchgar hefyd i'r Cyngor Cymdeithas am eu rhodd o £50 tuag at gostau'r Clwb. Y tymor yma mae'r Clwb wedi ymuno â Chynghrair Gwynedd a hyd yma wedi chwarae tair gêm. Wedi ennill un a cholli dwy! Mawr hyderwn y bydd y Clwb yn cael llwyddiant cyn diwedd y tymor. Y peth pwysig yw fod yr aelodau yn cael pleser wrth chwarae a hefyd yn cael cyfle i gyfarfod aelodau o Glybiau eraill o Gaerdybi i Lanfairfechan. Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno. Mae'r Clwb yn cyfarfod ar bawb dydd Mawrth o 2 tan 4 o'r gloch ac ar nos lau o 7 hyd 9 o'r gloch. Tâl aelodaeth £5 a 50c am bob gêm.

CYNGOR CYMUNED: Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd ac ymgyrchu cyson dros gynfod hir o flynyddoedd mae'n ymddangos o'r diwedd fo y Cyngor Sir yn bwriadu gwella'r gyffordd beryglus sy'n cysylltu Lon Pant y Wun â Lon Ysgol.

Bydd y cyfraniadau gan y Cyngor i gymdeithasau a muduadau a wnaeth gais am roddion ariannol fel a ganlyn: Bydd Clwb

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O. YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

Dyddiadur y Mis

Rhagfyr

- 1. Iau:** YR ARDAL: Clwb Eryri yn Ngwesty Gwynedd Llanberis. WAUNFAWR: Sefydliad y Merched.
- 2. Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed. WAUNFAWR: Plaid Cymru Ffair Nadolig yn y Ganolfan 6.30. DEINIOLLEN: Plaid Cymru, Ffair Nadolig yn Ysgol Gwaun Gynfi, 7.0 o'r gloch. DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band am 8.00.
- 5. Llun:** PENISARWAUN: Gwasanaeth Nadolig Ysgol Tanycoed yn Eglwys Santes Helen. DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched - Cyfarfod Blynyddol.
- 6. Mawrth:** Cymdeithas Wyddonol Gwynedd yn Narlithfa'r Adran Amaethyddiaeth, Coleg y Brifysgol Bangor am 7.30. DINORWIG: Eisteddfod y Pentref yn y Ganolfan, 6.30.
- 7. Mercher:** LLANRUG: Capel Mawr. Y Gymdeithas Lenyddol. CWMYGLO: Cinio Nadolig yr Oedolion yn y Ganolfan, 6.0 o'r gloch.
- 9. Gwener:** DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band. 8 o'r gloch.
- 10. Sadwrn:** Llanrug: Plaid Cymru - Cinio Nadolig yng Ngwesty

- Seiont Manor, Llwyn Brain.
- 12. Llun:** WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan 7.30 o'r gloch - 'Diwrnod o Waith'.
 - BETHEL:** Te Parti Nadolig plant hynaf Ysgolion Sul Bethel a Chysegr ym Mhlas Menai.
 - 13. Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr - Noson Bys a Bawd. BETHEL: Te Parti Nadolig plant ieuengaf yr Ysgol Sul yn festri Cysegr yn y prynhawn.
 - 14. Mercher:** CWMYGLO: Gyfa Chwist Nadolig yn y Ganolfan, 7.15 o'r gloch. Clwb y Graig. BETHEL: Merched y Wawr, Cinio Nadolig ym Mhlas Meni. WAUNFAWR: Parti Nadolig yr Urdd yng Nglangwna.
 - 15. Iau:** WAUNFAWR: Parti Nadolig y pentref yng Nglangwna. PENISARWAUN: Yr Ysgol Feithrin, Parti Nadolig.
 - 16. Gwener:** YR ARDAL: Yr ysgolion yn cau. WAUNFAWR: Apêl yr Urdd - Gyfa Chwist yn y Ganolfan, 7.30 o'r gloch. LLANBERIS: Te yr Henoed. DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.0 o'r gloch. DEINIOLLEN: Disgo i blant Ysgol Gwaun Gynfi yn y Ganolfan am 6.0 o'r gloch. BRYNREFAIL: Cinio Nadolig y pentref yng Ngwesty Clynnogfawr.
 - 17. Sadwrn:** CAEATHRO: Cinio Nadolig y pentref.
 - 18. Sul:** LLANRUG: Capel Mawr. Gwasanaeth Nadolig y Plant yn yr

- Ysgol Sul am 10 y bore.
- Gwasanaeth Carolau y Gymdeithas Lenyddol yn yr hwyr. EGLWYS LLANDINORWIG: Gwasanaeth Christingle. CAEATHRO: Gwasanaeth Nadolig y plant 5.30 yr hwyr. BETHEL: Gwasanaeth Nadolig y Plant yng Nghysegr yn y bore..
- 19. Llun:** LLANRUG: Capel Mawr. Te Parti plant yr Ysgol Sul, 3.30 o'r gloch. BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched - Cinio Nadolig.
- 23. Gwener:** DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band am 8.0 o'r gloch. DEINIOLLEN: Disgo i blant dros 11 oed yn y Ganolfan am 7.0 o'r

- gloch.
- 25. Sul:** DYDD NADOLIG: DISG-WYLFA: Gwasanaeth Cymun am 10 y bore. DEINIOLLEN: Cyngerdd Nadolig y Seindorf yn y Ganolfan.
- 30. Gwener:** DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Band am 8.0 o'r gloch.
- 31. Sadwrn:** DEINIOLLEN: Gwylnos yn neuadd y Ganolfan am 11 o'r gloch yr hwyr.
- 1989 Ionawr**
- 1. Sul:** Blwyddyn Newydd Dda.


CEUNANT

Gohebydd: E Parry, Morwel

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd cyfarfod o Ddiolchgarwch yng Nghapel Ceunant brynhawn Sul, Hydref 23ain, dan ofal y gweinidog y Parch John Morris. Cymerwyd rhan gan Ffion Mai Williams, Karen Jones, Catrin Parry a Gwenno Parri.

DYMUNIADAU DA: Dymunwr adferiad buan i Mrs D M Pritchard, Glasfryn, sydd yn Ysbyty Gwynedd ac hefyd i Mrs L Jones, Ty Capel sydd newydd ddychwelyd adref o'r ysbyty.

DIOLCH: Dymuna Mr W Pritchard, Glasfryn ddiolch i bawb, yn feddygon, gweinyddesau, cymdogion a ffrindiau am bob gofal a charedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei waeledd yn ddiweddar.



I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

WAUNFAWR (PARHAD)

Gwryfai, y Clwb Bowlio, y GYMDITHAS LENYDDOL, Clwb Gateway Segontium, Mynwent Capel Bethel a'r Ysgol Feithrin yn derbyn £50 yr un. Cymdeithas Spastig Arfon, Apêl Marwolaethau Babanod yn y Crud, Ffrindiau Cambrian i'r Anabl, Canolfan Taro Heibio Bangor (£25 yr un). Canolfan Cymreig Materion Rhyngwladol (£20).

YR URDD: Ar Dachwedd y 5ed, llwyddwyd, er gwaetha'r tywydd tamp i danio Guto a'r goelcerth unwaith yn rhagor, ynghyd ag ardangosfa dda iawn o dân gwyllt. Diolch i bawb fu'n cynorthwyo.

Straeon iasoer gan John Owen Huws gafwyd ar Dachwedd 2il. Gobeithio fod yr aelodau wedi ail-ddechrau cysgu erbyn hyn! Ar Dachwedd 9ed, cafwyd sgwrs ddefnyddiol iawn gan Dr Roberts ar Gymorth Cyntaf ac ar Dachwedd 16eg daeth Mr Dafydd Edwards i sôn wrth y plant am Ddiogelwch y Ffordd.

Cofiwch y bydd Pwyllgor Adloniant Eisteddfod Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990 yn cynnal parti Nadolig i aelodau Urdd y ddau gylch yng Nglan Gwna, nos Fercher, Rhagfyr 14eg. Bydd y manylion ar gael yn nes i'r amser. **CLWB CHWARAEON:** Yn dilyn cyfyngiadau yn y cymorthdaliadau a wneir gan Gyngor Chwaraeon Cymru i wahanol fudiadau, y

bwriad nawr yw codi ystafell snwcer yn unig yn y pentref. Mae'r cynlluniau eisoes yn cael eu darparu a gobeithir gyrru cais arall i'r Cyngor Chwaraeon yn y dyffodol agos.


CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref: £40: Humphrey Roberts, Rhosgoch; £25: Mrs Irene Roberts, Pant Teg; £10: W.M. Catt, Smithy Garage.

FFAIR NADOLIG
Cynhellir Ffair Nadolig Plaid Cymru yn y Ganolfan, Waunfawr ar nos Wener, Rhagfyr 2il am 6.30 yr hwyr. **Mynediad:** Oedolion 30c, plant 10c.

CLWB PLAID CYMRU: Enillwyr Hydref 1. Beryl Jones; 2. John Huws Roberts; 3. Heulwen Huws. **BOCSIO SIEINIAIDD:** Wushu Kwan - Bydd gwersi yn y bocsiio arbennig yma yn cael eu cynnal yn y Ganolfan bob nos Sadwrn rhwng 6 ac 8 o'r gloch. Mae croeso i ddisgyblion o bob oed ymaelodi.

Ymddiheuriadau i Adran Bentref yr Urdd, WAUNFAWR am gynnig rhaglen diddorol llydynt ar gyfer y tymor yma. Rhestr o weithgareddau Adran Bentref **PENISARWAUN** a ymddangosodd ar dudalen 20 yn rhifyn Tachwedd o'r Eco. Drwg gennym os parodd hyn drafferth i unrhyw un.

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampol o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr



I weled ein crôg fasedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiâu
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

- * GRUG
- * ALPAU
- * PERTHI
- * LLYSIAU

CHWARAEON

PÊL-DROED Cynghrair Gwynedd Llanberis

Un Cwpan, sef y 'Welsh Intermediate' aeth a sylw Llanberis drwy gydol y mis. Fe aeth y tri Sadwrn cyntaf i chwarae yn erbyn y Felinheli, dwy gêm gyfartal a'u trechu o 2 gôl i 0 ar y trydydd cynnig.

Ofer fu'r cyfan, er hynny, gan i Dreffynnon eu trechu y Sadwrn diwethaf yn y bedwaredd rownd, o 1 gôl i 0.

Llanrug

Coleg Normal 0	Llanrug 3	CPGC Bangor 0	Llanrug 2
Hotpoint 0	Llanrug 0	Caerdybi 6	Llanrug 1

CYNGHRAIR SAIN All dîm Llanrug

Gemau cwpan fu'n denu eu sylw yn ystod y mis, a hyn o bosibl yn rhoi cyfle i weddill y timau geisio lleihau nifer y pwyntiau sy'n cynrychioli mantais Llanrug ar gopa'r tabl.

Yn y Cwpan Iau, fe gafwyd gêm gyfartal ar y 5ed adref yn erbyn Llansannan, a cholli, yn anffodus yn yr ail chwarae y Sadwrn canlynol o 3 gôl i 2.

Y Cwpan Alves fu'n denu eu bryd y Sadwrn diwethaf, a cholli o 4 gôl i 2 yn Nyffryn Nantlle fu eu hanes.

All dîm Llanberis

Dim ond un gêm y mis hwn, colli o 3 gôl i 1 yn Rhuddlan yn y Cwpan Iau.

Deiniolen

Bu angen 2 gêm gan Rhos Nomads i drechu Deiniolen yn y Cwpan Iau. Gêm gyfartal ar y 5ed yn Rhos ond ar gae Ysgol Brynrefail ar y 12fed y sgôr oedd Deiniolen 0 Rhos 1.

Y Sadwrn diwethaf fe'u trechwyd o 5 gôl i 1 gan Caernarfon Boro' yn y Cwpan Alves.



Ail Dîm Deiniolen cyn wynebu Caernarfon Boro' y Sadwrn diwethaf. Mae'r garfan yn cynnwys G Edwards; M Morris; LI Evans; K J Jones; P Skidmore; S Evans; K Owen; H Roberts; T Maxwell; A Williams; P Guy; D Lewis; D Jones; J Roberts; P Allen; C Worth; P Jones; D Gibson a T Roberts.

YSGOL BRYNREFAIL Treialon Pêl-Droed

Yn ystod y mis fe gynhaliwyd treialon Ysgolion Gwynedd i fechgyn dan 14 oed a threialon Ysgolion Arfon i fechgyn dan 13eg oed. Fe enillodd Ian Hughes o Lanberis ei le yn y gêm derfynol i ddewis tîm Gwynedd. Fe chwaraeir hon yn ystod y mis.

Dewiswyd Simon Murphy (Ceunant), Aled Roberts (Llanrug), Raphael Ginsberg (Bethel) a Gavin Allen (Deiniolen) i garfan Ysgolion Arfon dan 13eg oed.

Rhyw 8 mlynedd yn ôl roedd Malcolm, brawd Gavin, ag sydd bellach yn sgorio'n rheolaidd i Norwich, (y tîm sydd ar gopa Cynghrair Lloegr) yn aelod o'r tîm hwn. Sgwn i os cawn ni weld ei frawd neu unrhyw un o'r hogiau yma yn ei efelychu - amser a ddengys.

Canlyniadau Pêl-droed

Tryfan (gartref)	Syr Hugh Owen (gartref)
Bechgyn hyn: ennill 1-0;	Dosbarth 1: Cyfartal 2-2
Bachgen dan 15: ennill 7-2.	Dosbarth 2: Cyfartal 2-2

Pêl-rwyd y Genethod

Mewn cystadleuthau yn erbyn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch bu timau'r ail a'r drydedd flwyddyn yn fuddugol, tra' 5ed yn colli o 11 pwynt i 4.

Hoci'r Merched

Bu tîm y 4edd flwyddyn yn fuddugol yn eu gêm gyntaf o'r tymor o 2 gôl i 0.

Colli o 1 gôl i 0 fu hanes tîm blwyddyn 2 a 3.

PYSGOTA Adroddiad H.P. Hughes

Daeth tymor arall i ben, a does dwywaith nad hwn oedd y gorau ers y chwedegau. Er nad yw'r nifer terfynol o eogiaid a ddaliwyd yn y Seiont i law eto, mae'r rhif a nodir gan giper y Gymdeithas oddeutu 400, a'r trymaf a ddaliwyd yn pwyso 19 a hanner pwys, gan Merfyn Harris o'r Felinheli. Deallaf mai o un o byllau Crawia y daeth hwn.

Diddorol yw sylwi ar y nifer o eogiaid a ddisgynnodd i'r enwair bluen, a'r mwyaf gyda'r dull yma oedd un 16 pwys o Lyn Doctor, i Donald Pritchard, Caeathro.

Ar yr 8fed o Ragfyr, mae'r noson bwysicaf ym mlwyddyfr y Gymdeithas, sef y Pwyllgor Blynnyddol, a gynhelir yn yr 'Institute', Allt y Pafiliwn, Caernarfon, i ddechrau am 7 o'r gloch. Erfynir ar i bob aelod wneud pob ymdrech i fod yn bresenol, gan fod nifer o reolau newydd am gael eu cynnig i geisio gwella ar gyfansoddiad y Gymdeithas. Fe ymhelaethaf ar y rhain ac ar brisiau aelodaeth Tymor '89 yn y rhifyn nesaf.

Efallai mai'r gwelliant mwyaf pwysig i gael ei gynnig yw'r rhwystrau ar droelli a physgota Crogimwch ar ddwr isel, ac er mwyn hwyluso gorfodi y rheol yma, mae offer mesur yn cael eu gosod yng nghyffiniau pontydd a manau mynediad eraill i'r afon. Bydd gofyn i'r troellwyr daro llygad ar y rhain y tymor nesaf, cyn dechrau physgota.

Ers rhyw bythefnos bellach mae'r tir a'r hawliau physgota a adnabyddir fel Gerddi Bach, Pont Rug wedi dod i berchnogaeth y Clwb. Mae hyn yn ychwanegiad pwysig iawn i hawliau a buddiannau'r Gymdeithas. Mawr ddiolch i Mr Evan Stanley Humphreys, Caernarfon am wneud hyn yn bosibl.

Er fod y pygota drosodd hyd ddechrau Mawrth, mae cryn waith i'w wneud ar dwtio ac adgyweirio'r glannau a gosod camfau a chasglu wyau i lenwi'r ddeorfa yng Nghaeathro. Mae'n ddiddorol iawn gweld yr eogiaid a'r sewin bach yn deori a'u gwyllo'n tyfu cyn eu rhoi allan yn y Gwanwyn yn y manau mwyaf anghysbell o'r dyfroedd.

RHEDEG TRAWS GWLAD

Daeth rhedeg mynyddoedd a thraws gwlad yn boblogaidd dros ben yn ystod y blynnyddoedd diwethaf yn ardal yr Eco, gyda Chlwb Rhedeg Eryri yn ffynnu a Ras yr Wyddfa yn un o'r enwocaf o'i bath yn Ewrop. Fe welir rhedwyr o bob oed yn ymarfer hyd lwybrau a ffyrdd yr ardal bron bob awr o'r dydd a'r nos, ac eithriad yw'r mis na ddaw newyddion am lwyddiant un o'r rhedwyr lleol hyn i sylw'r Golygydd.

Bu brawd a chwaer o Bontrug, Colin a Caroline Jones, yn cynrycholi Ysgol Brynrefail y penwythnos diwethaf ym Mhencampwriaethau Traws Gwlad Ysgolion Cymru yn y Drenewydd.

Fe nodwyd llwyddiannau Colin eisoes o dro i dro ar y dudalen ôl, ond credaf mai dyma'r tro cyntaf i Caroline ddod i'r amlwg. Mae'n ddisgybl ym mlwyddyn gyntaf yr ysgol, ac yn ei rās yn erbyn disgyblion blynnyddoedd 1, 2 a 3 fe ddaeth yn 66ain allan o 132.

Yn y bedwaredd flwyddyn mae Colin, ac yn y dosbarth i fechgyn sy'n cynnwys rhai o'r 5ed fe ddaeth yn bedwerydd canmoladwy iawn allan o 80.

Llongyfarchiadau i'r ddau oho-



PLANT MEWN ANGEN

Ymhlith y nifer o weithgareddau a ymgwymerwyd gan blant ac athrawon Ysgol Brynrefail i godi arian tuag at gronfa Plant Mewn Angen yr wythnos diwethaf roedd Pêl-droed 5 bob ochr nodedig.

Fe drefnodd Mrs Carys Jones a Mr Dic Parry fod 6 thîm o 5 yn treulio'r teirawr rhwng 3.30 a 6.30 yn cystadlu â'u gilydd, ac fe gasglwyd dros £120 ganddynt. Gweler y mwyafrif o'r hogia yn edrych yn ddigon blinedig y bore canlynol ar ôl eu hymdrechion.

Mae'r swm yma yn rhan o'r cyfanswm o tua £500 a gasglwyd drwy holl weithgareddau'r ysgol.

